









Tasglu Data Cynhwysol

Adroddiad Argymhellion

Gadael neb ar ôl — Sut y gallwn
fod yn fwy cynhwysol yn ein data?





Tabl cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	1
1. Cyflwyniad	3
1.1 Pam y cafodd y Tasglu Data Cynhwysol ei sefydlu?	3
1.2 Beth oedd ein nod?	3
1.3 Beth wnaethom ni?	4
1.4 Ein hadroddiad a'n hargymhellion	5
2. Beth yw'r bylchau allweddol mewn data?	7
2.1 Grwpiau neu nodweddion sydd ar goll o'r data	8
2.2 Grwpiau nad oes digon o ddata ar gael ar eu cyfer	9
2.3 Grwpiau nad yw'r data arnynt o ansawdd digon da	9
3. Pa mor gynhwysol yw dulliau presennol y DU o gasglu data?	11
3.1 Mynd i'r afael â chyfranogiad mewn gweithgareddau casglu data	11
3.2 Sicrhau bod y data a gesglir yn diwallu anghenion ymatebwyr a defnyddwyr	13
3.3 Sicrhau bod y data a gesglir o ansawdd digonol i gyfrif pawb mewn cymdeithas a monitro eu canlyniadau yn gywir	14
4. Sut y gallwn sicrhau y caiff pawb mewn cymdeithas eu cynrychioli mewn dadansoddiadau ac allbynnau data?	17
4.1 Diffyg manylder mewn data i allu deall is-grwpiau penodol a chroestoriadedd nodweddion personol	18
4.2 Diffyg adnoddau a/neu sgiliau i ddod o hyd i ddata a'u dadansoddi	20
4.3 Diffyg allbynnau addas a hygyrch	21

5. Beth yw'r enghreifftiau o arferion da a beth yw'r amodau sy'n galluogi cynwysoldeb i ffynnu?	23
5.1 Meithrin ymddiriedaeth drwy ymgysylltu	23
5.2 Ateb y cwestiynau cywir	24
5.3 Ymgysylltu â phob cymuned	24
5.4 Partneriaethau	25
5.5 Cynwysoldeb mewn gweithgareddau casglu data arferol	25
5.6 Datblygu dulliau newydd o gasglu data mewn ffordd gynhwysol	25
5.7 Defnyddio'r data sydd eisoes ar gael yn y ffordd orau er mwyn bod yn fwy cynhwysol	26
5.8 Lledaenu gwybodaeth a chyfathrebu mewn ffordd gynhwysol	27
Ein hargymhellion	29

Ymwadiad: Cafodd y gweithgareddau ymgynghori eu cynnal yn Saesneg ac mae unrhyw ddyfyniadau yn yr adroddiad hwn wedi cael eu cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, naill ai'n uniongyrchol neu gan aralleirio lle bo hynny'n fwy priodol er mwyn cyfleu ystyr sylwadau'r cyfranogwy

Rhagair y Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad y Tasglu Data Cynhwysol a'r argymhellion rydym wedi'u datblygu er mwyn helpu i greu system data fwy cynhwysol.

Sefydlwyd y Tasglu ym mis Hydref 2020 gyda'r nod o sicrhau bod data a thystiolaeth ledled y DU yn adlewyrchu ac yn cynnwys pawb, fel bod pob aelod o gymdeithas yn cyfrif ac yn cael ei gyfrif a bod neb yn cael ei adael ar ôl.

Mae pandemig COVID-19, sef cyd-destun ein holl waith, wedi tynnu sylw at ba mor bwysig yw data da ac amserol ym maes polisi cyhoeddus ac o ran cymdeithas. Mae data cynhwysol yn ein helpu i ddeall sut mae digwyddiadau'n cael effeithiau gwahaniaethol ar unigolion, grwpiau a chymunedau. Rhaid i hyn yn ei dro alluogi'r rhai â chyfrifoldeb yn y llywodraeth ac mewn awdurdodau lleol a chymdeithas ehangach, a phob un ohonom fel unigolion a chymunedau, i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau a'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn y DU yn 2021.

Mae'r Tasglu wedi dod ag amrywiaeth o arbenigwyr ynghyd, gan gynnwys uwch-academyddion ac arweinwyr cymdeithas sifil, i drafod pynciau fel anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd, ethnigrwydd a hunaniaeth, methodolegau ansoddol a meintiol, a moeseg ymchwil. Rwy'n ddiolchgar iddynt am eu gwaith caled a'u parodrwydd i fodloni terfynau amser tynn. Maen nhw, fel finnau, wir yn gwerthfawrogi cymorth a gwaith caled y tîm o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) sydd wedi bod o gymorth mawr drwy gydol y broses. Rydym wedi ystyried sut y gellid bod yn fwy cynhwysol drwy gydol y broses ymchwil, drwy'r camau dylunio astudiaeth, mapio data, casglu data a dadansoddi data nes y caiff y canfyddiadau eu cyflwyno.

Fel rhan o'n proses, gwnaethom ymgynghori ac ymgysylltu'n helaeth. Gwnaethom gasglu amrywiaeth o wybodaeth er mwyn gweld pa mor gynhwysfawr yw data a thystiolaeth y DU ar hyn o bryd.

Gwnaethom geisio deall beth sy'n gweithio'n dda a beth y gellid ei wella, y bylchau a'r rhwystrau rhag casglu data mwy cynhwysol, effeithiau data nad ydynt yn gwbl gynhwysol, a sut y gellid bod yn fwy cynhwysol.

Rwy'n ddiolchgar i bawb a gymerodd ran am roi o'u hamser a rhannu eu safbwyntiau, eu profiadau a'u syniadau ar gyfer atebion a ffyrdd ymlaen. Rhyfeddwyd y Tasglu gan ba mor awyddus oedd pobl i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ymgynghoriad, trefnu eu digwyddiadau eu hunain ac anfon eu gwaith atom. Mae cyfraniadau cynifer o wahanol unigolion a grwpiau wedi bod yn hanfodol i'n hystyriaethau a'n hargymhellion. Maent wedi ein helpu i ddeall yn well sut y gellid gwneud data'n fwy cynhwysol yn ymarferol.

Ni fyddai wedi bod yn bosibl cynnal ymgynghoriad mor fanwl ac eang yn yr amser a oedd gennym heb y tîm yng Nghanolfan Cydraddoldebau a Chynhwysiant SYG, a fu'n gweithio'n ddiflino ar ein rhan ar ymgysylltu, ymgynghori ac ymchwilio, gan gasglu a llunio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn.

Credaf y bydd ein hargymhellion yn dwyn ffrwyth, o ystyried yr holl gyfraniadau rydym wedi'u cael o bob cyfeiriad, sy'n galonogol gan fod cymaint o waith i'w wneud.

Gobeithiwn y bydd yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn, sy'n helaeth ac yn gynhwysfawr, yn helpu i fapio ffordd ymlaen er mwyn gwneud data a thystiolaeth y DU yn fwy cynrychiadol, fel y caiff lleisiau a phrofiadau pawb eu hadlewyrchu'n well yn y dyfodol.

Y Fonesig Moira Gibb

Cadeirydd y Tasglu Data Cynhwysol
Gorffennaf 2021



1. Cyflwyniad

1.1 Pam y cafodd y Tasglu Data Cynhwysol ei sefydlu?

Flwyddyn yn ôl, galwodd yr Ystadegydd Gwladol dasglu annibynnol ynghyd i argymhell y ffyrdd gorau o wneud newid sylweddol o ran cynhwysoldeb data a thystiolaeth y DU. Cyn hynny, cyhoeddwyd Statistics for the Public Good, sef gweledigaeth strategol Awdurdod Ystadegau'r DU sydd â'r nod o sicrhau bod pawb yn y DU yn cyfrif ac yn cael eu cyfrif, a bod neb yn cael ei adael ar ôl.

Ymhlith aelodau'r Tasglu, a gadeiriwyd gan y Fonesig Moira Gibb, roedd grŵp amrywiol o uwch-academyddion ac arweinwyr cymdeithas sifil ag amrywiaeth eang o arbenigedd ym meysydd cydraddoldebau, methodolegau, daearyddiaeth a moeseg data.

1.2 Beth oedd ein nod?

Gofynnwyd i ni ystyried pedwar cwestiwn pwysig, a'r atebion i'r cwestiynau hynny yw'r sail ar gyfer ein hargymhellion i'r Ystadegydd Gwladol:

- sut y gallwn wneud ein dull o gasglu data a thystiolaeth, eu dadansoddi ac adrodd arnynt yn fwy cynhwysol?
- sut y gallwn ddefnyddio'r data sydd eisoes ar gael, megis data gweinyddol, data'r cyfrifiad a data arolygon, yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn deall cydraddoldebau a chynhwysiant?
- beth yw'r bylchau allweddol mewn data sy'n ein hatal rhag deall cydraddoldebau a chynhwysiant, a sut y gallwn gau'r bylchau hynny?
- sut y gallwn adeiladu ar ein profiadau ein hunain a phrofiadau pobl eraill er mwyn gwella ein dull gweithredu mewn perthynas â chydraddoldebau a chynhwysiant yn y dyfodol?

1.3 Beth wnaethom ni?

Dros gyfnod o 9 mis, rhoesom raglen uchelgeisiol o weithgareddau ymgysylltu ar waith er mwyn gwrandio a dysgu. Roedd hyn yn cynnwys sgysiau â phobl a all gael eu gwahodd i gymryd rhan mewn gwaith ymchwil a rhannu eu data ag ymchwilwyr, a phobl sy'n casglu neu'n defnyddio data a thystiolaeth. Clywsom gan bobl o bedair gwlad y DU drwy amrywiaeth o weithgareddau ymgynghori a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr a mis Mai 2021, gan gynnwys:

- ymgynghoriad agored 12 wythnos ar-lein ar Citizen Space
- saith trafodaeth bord gron a chwe chyfweiliad manwl â chynrychiolwyr llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, a llywodraethau'r gwledydd datganoledig
- pedair trafodaeth bord gron a dau gyfweiliad manwl ag academyddion a chynrychiolwyr cymdeithasau dysgedig
- trafodaethau â mwy nag 80 o arweinwyr cymdeithas sifil sy'n gweithio mewn 15 o feysydd sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb
- trafodaethau â mwy na 90 o aelodau o'r cyhoedd sydd â phrofiad uniongyrchol o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb

Deuai'r cyfranogwyr o amrywiaeth o gefndiroedd a chawsant eu dewis yn seiliedig ar y gwaith sy'n cael ei wneud ym maes cydraddoldebau ar hyn o bryd. Cafodd digwyddiadau ymgynghori eu cynnal ar-lein, am iddynt gael eu cynnal yn ystod y pandemig pan oedd cyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi'u cyfyngu. Er mwyn sicrhau ein bod yn clywed gan bobl nad oedd mor hawdd iddynt ddefnyddio'r rhyngrwyd, gwnaethom hefyd gynnal ymgynghoriad papur drwy'r post â phobl sy'n wynebu risg o allgáu digidol. Cawsom ein gwahodd gan grwpiau a sefydliadau eraill i ddigwyddiadau roeddent yn eu trefnu er mwyn cyfrannu eu safbwyntiau at yr ymgynghoriad. Ymhlith y rhain roedd:

- trafodaeth bord gron a drefnwyd gan bobl sy'n ystyried eu hunain yn Sikhiaid
- trafodaeth bord gron a drefnwyd gan bobl sy'n ystyried eu hunain yn Fwslimiaid
- digwyddiad a drefnwyd gan y Sefydliad Data Agored
- digwyddiad a drefnwyd gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu

Yn ystod ein cyfarfodydd misol, gwnaethom ystyried papurau a chyflwyniadau ar amrywiaeth eang o bynciau sy'n gysylltiedig â data a thystiolaeth gynhwysol. Gwnaethom gomisiynu rhai ohonynt ein hunain, ar bynciau roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig i ni ddysgu mwy amdanynt, a chafodd eraill eu cyfrannu gan bobl a oedd am dynnu ein sylw at eu gwaith.

Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a rannodd eu safbwyntiau a'u profiadau â ni ac rydym wedi ceisio gwneud cyfiawnder â'r toreth o wybodaeth a gasglwyd yn ein hargymhellion ar gyfer y ffordd ymlaen. I unrhyw rai a hoffai edrych yn fanylach ar ganfyddiadau pob un o'r gweithgareddau ymgynghori, maent wedi

cael eu cyhoeddi ar wahân ac maent ar gael i'w gweld ar-lein. Mae dolenni i bob adroddiad i'w gweld yn yr adran 'Tystiolaeth ategol'.

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg. Mae fersiwn gryno o'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg, yn Saesneg ac mewn fformat hawdd ei ddeall. Mae fersiynau hawdd eu deall o'r adroddiad cryno ar gael yn Gymraeg, yn Saesneg ac mewn Pwyleg, Rwmaneg, Pwnjabeg, Cantoneg, Arabeg a Ffarsi. Os bydd angen fformat arall arnoch, rhwch wybod i ni yn equalities@ons.gov.uk neu ffoniwch **0800 298 5313**.


1.4 Ein hadroddiad a'n hargymhellion

Rydym wedi ystyried yr holl dystiolaeth a gasglwyd yn ofalus wrth lunio ein hargymhellion ac mae'r adroddiad hwn yn crynhoi llawer o'r prif faterion a godwyd gan bobl. Drwy gydol y gweithgareddau ymgynghori, ac yn yr holl dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ein cyfarfodydd, daeth yn amlwg y bydd angen gwneud y canlynol er mwyn sicrhau'r newid sylweddol sy'n angenrheidiol er mwyn cael data mwy cynhwysol:

- meithrin diwylliant cryf o ymddiriedaeth a dibynadwyedd, gan gydnabod yr angen i sicrhau bod gan bobl sy'n rhannu eu data, a'r rhai sy'n defnyddio data er budd y cyhoedd, hyder yn y ffordd y caiff data eu casglu
- dull system gyfan ac ymrwymiad gwirioneddol i fod yn fwy cynhwysol o ran yr hyn a gaiff ei fesur a sut, a phwy yr ymgysylltir â nhw, sicrhau bod data a thystiolaeth ar gael yn ehangach, a gwella cywirdeb y wybodaeth a gaiff ei llunio er mwyn adlewyrchu bywydau pobl yn well
- eglurder ynglŷn â'r hyn y mae bod yn gynhwysol yn ei olygu yn ymarferol, er mwyn sicrhau bod data a thystiolaeth yn adlewyrchu ein cymdeithas, nawr ac wrth iddi ddatblygu, a hynny mewn ffordd gynhwysfawr a dibynadwy

Ceisiodd y Tasglu fod mor gynhwysol â phosibl wrth ystyried anghenion ledled pedair gwlad y DU. Mae pedwar fframwaith deddfwriaethol gwahanol ar waith ledled y DU ac rydym wedi cadw hyn mewn cof wrth gyfeirio at boblogaethau a grwpiau buddiant mewn perthynas â data a thystiolaeth ar gydraddoldebau a chynhwysiant. Mae'r Tasglu wedi canolbwyntio ar amrywiaeth eang o boblogaethau a grwpiau a all wynebu mwy o risg o anfantais, gwahaniaethu neu ymyleiddio, yn gyffredinol ac yn ein darlun ystadegol o'r DU. Mae hyn wedi cynnwys:

- pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) sy'n gymwys yng Nghymru, Lloegr a'r Alban
- grwpiau sydd wedi'u henwi yn y Nodau Datblygu Cynaliadwy am ei bod yn arbennig o bwysig eu dadgyfuno er mwyn sicrhau nad ydym yn gadael neb ar ôl
- pobl eraill nad ydynt yn rhan o'r fframweithiau hyn yn benodol, ond y gwyddom eu bod heb gynrychiolaeth ddigonol yn ystadegau a thystiolaeth y DU, megis preswylwyr rhai mathau o sefydliadau cymunedol, poblogaethau cartrefi nad ydynt yn rhai preifat yn fwy cyffredinol, a mudwyr heb eu dogfennu



Drwy ein hadroddiad a'n hargymhellion, rydym wedi defnyddio **'grwpiau a phoblogaethau perthnasol'** i gyfeirio at grwpiau cymdeithasol a phoblogaethau cyfranogwyr y mae ein hargymhellion yn canolbwyntio'n benodol arnynt mewn perthynas â chasglu data, eu cofnodi ac adrodd arnynt mewn ffordd fwy cynhwysol. Mae hyn yn cynnwys grwpiau â nodweddion gwarchodedig (yng Nghymru, Lloegr a'r Alban) a'r grwpiau hynny sydd ar goll yn llwyr o'r data neu'r grwpiau y mae'r data arnynt yn brin neu o ansawdd gwael.

Cyfeiriwn hefyd at **'grwpiau wedi'u hiliaethu'**, neu bobl yr ystyrir eu bod yn rhannu nodweddion y tybir eu bod yn seiliedig ar 'hil' gyffredin. Mae'r term 'wedi'u hiliaethu' yn tynnu sylw at natur gymdeithasol y dybiaeth hon, yn hytrach na'i bod yn seiliedig ar fioleg.



2. Beth yw'r bylchau allweddol mewn data?

Ym mhob rhan o seilwaith data'r DU, mae cryn dipyn o ddata'n bodoli er mwyn archwilio profiadau a chanlyniadau amrywiaeth o grwpiau o bobl sydd â gwahanol nodweddion.

Fel newidyn demograffig craidd, caiff data ar **ryw** eu casglu yn y rhan fwyaf o ddata gweinyddol a data arolygon. Mae'r DU yn casglu data ar **anabledd**, yn adrodd arnynt ac yn gwneud cryn dipyn o waith dadansoddi arnynt. At hynny, o gymharu â'r rhan fwyaf o wledydd eraill Ewrop, mae gan y DU ddata cyfoethog ar ethnigrwydd sy'n seiliedig ar waith ymgynghori a threialu manwl. Mae data ar **grŵp ethnig** ar gael o lawer o ffynonellau data swyddogol, gan gynnwys data gweinyddol, arolygon a chyfrifiadau'r DU, ond mae ansawdd a manylder y data'n amrywio o un ffynhonnell i'r llall. Mae gan y DU hefyd ddata da ar **grefydd** o'r cyfrifiadau a rhai o arolygon y llywodraeth, ond cwestiwn gwirfoddol yw'r un ar grefydd ac felly ni chaiff ei ateb gan bob ymatebydd. Hefyd, nid yw'r opsiynau ymateb wedi'u cysoni ar gyfer crefydd ac ethnigrwydd ar y lefel fanylaf yr un fath ar gyfer pob un o wledydd y DU.

Serch hynny, drwy ein gweithgareddau ymgynghori, nodwyd nifer o feysydd lle y ceir bylchau allweddol mewn data ym marn y cyfranogwyr. Dywedodd 70% o'r sefydliadau a 61% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar-lein fod bylchau mewn data wedi effeithio ar eu gallu i ateb y cwestiynau sydd bwysicaf iddynt. Yn fras, gellir rhannu'r bylchau allweddol hyn mewn data yn grwpiau neu nodweddion sydd **ar goll yn llwyr o'r data**, yn rhai lle **nad oes digon o ddata** ar gael neu'n rhai lle **nad yw'r data'n ddigon manwl neu o ansawdd digon da** i ddiwallu anghenion defnyddwyr.



2.1 Grwpiau neu nodweddion sydd ar goll o'r data

Ym mhob un o'r gweithgareddau ymgynghori, cafodd nifer o grwpiau eu nodi fwy nag unwaith fel rhai nad oes gwybodaeth ddemograffig sylfaenol ar gael ar eu cyfer, hyd yn oed. Ymhlith y rhain roedd **pobl drawsryweddol, pobl anneuaidd a phobl â rhywedd amrywiol, poblogaethau nad ydynt yn rhan o gartrefi** (er enghraifft, aelodau o sefydliadau preswyl fel cartrefi gofal neu garchardai, a phobl ddigartref, yn enwedig pobl nad ydynt yn defnyddio unrhyw wasanaethau i bobl sy'n cysgu allan) **a grwpiau y tybir yn aml ei bod yn 'anos eu cyrraedd'** (er enghraifft, grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, cyn-garcharorion, ceiswyr lloches, dioddefwyr trais domestig a mudwyr heb eu dogfennu neu ddioddefwyr masnachu pobl). Mae rhai o'r grwpiau hyn yn cynnwys y bobl fwyaf agored i niwed a difreintiedig yn y DU, sy'n golygu bod diffyg data sy'n adlewyrchu eu bywydau a'u profiadau yn arbennig o allweddol.

Mae **plant** yn grŵp arall y nododd llawer o bobl ei fod ar goll o'r data. Lle mae gennym ddata ar eu cyfer, caiff y data hyn yn aml eu casglu oddi wrth bobl heblaw'r plant eu hunain ac felly mae'n bosibl na chaiff lleisiau'r plant eu hunain eu clywed. Mae Sefydliad Nuffield wedi nodi nifer o fylchau allweddol yn y data ar blant. Mae hyn yn cynnwys diffyg gwybodaeth am bob agwedd ar fywyd i blant sy'n derbyn gofal, yn ogystal â chynrychiolaeth annigonol i blant sydd wedi cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso yn ystod eu plentyndod cynnar a diffyg gwybodaeth am eu canlyniadau. Hefyd, nododd adroddiad gan Ysgol Economeg Llundain fod diffyg data i ddeall tlodi plant ac anfantais amlddimensiynol ymhlith plant, gan dynnu sylw at ofalwyr ifanc, plant mudol, plant sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso yn benodol fel grwpiau sydd 'ar goll' neu'n 'anweledig' yn y data sydd ar gael. Tynnodd y cyfranogwyr yn ein gweithgareddau ymgynghori sylw at y grwpiau hyn hefyd.

Disgrifiodd amrywiol gyfranogwyr o'r llywodraeth fylchau mewn dealltwriaeth o'r **boblogaeth sydd wedi'i hallgáu'n ddigidol**, y rhesymau pam y gall pobl wynebu risg o allgáu digidol ac o dan ba amgylchiadau, ac i ba raddau na chânt eu cynrychioli yn y drefn casglu data arferol. Teimlai'r cyfranogwyr ei bod yn debygol bod hyn wedi gwaethygu yn sgil mesurau a roddwyd ar waith mewn ymateb i'r coronafeirws (COVID-19), er enghraifft gan fod llawer o arolygon bellach yn cael eu haddasu ar gyfer llwyfannau ar-lein, gan arwain at gostau i'r cyfranogwyr o bosibl, a chyfyngu ar eu gallu i gymryd rhan.

Er y bydd llawer o newidynnau a mathau o ddata a allai fod yn ddefnyddiol er mwyn deall anghydraddoldebau ym mhob rhan o'r boblogaeth, nododd y cyfranogwyr yn ein gweithgareddau ymgynghori ddau newidyn allweddol sydd â pherthnasedd i bolisiau a pherthnasedd esboniadol. Y cyntaf oedd **data ar incwm**, sef data na chânt eu casglu'n aml ochr yn ochr â gwybodaeth am nodweddion personol. Nodwyd bod y data hyn yn fwlb allweddol yn nata'r cyfrifiad ac yr ystyrir eu bod yn hanfodol er mwyn deall anfantais. Yr ail oedd **cefndir economaidd-gymdeithasol**, sef newidyn pwysig er mwyn deall pynciau

fel anghydraddoldebau addysgol, er na chaiff ei gynnwys yn aml yn nata'r llywodraeth nac yn y cyfrifiadau; yn aml, dim ond ar ffurf bras amcanion y bydd ar gael, megis y mesur deuaidd o gymhwysedd i gael Prydau Ysgol am Ddim yn nata gweinyddol yr Adran Addysg. Awgrymodd y cyfranogwyr y dylai'r newidynnau hyn gael eu cynnwys yn fwy rheolaidd mewn data a gaiff eu casglu, ochr yn ochr â nodweddion personol.

2.2 Grwpiau nad oes digon o ddata ar gael ar eu cyfer

Hyd yn oed yn achos grwpiau a gaiff eu cynnwys i ryw raddau yn y seilwaith data, ceir bylchau yn y wybodaeth a gaiff ei chasglu. Er y caiff data ar **gyfeiriadedd rhywiol** eu casglu mewn sawl ffynhonnell data yn y DU, ceir prinder gwybodaeth am wahanol brofiadau a chanlyniadau pobl o ran eu cyfeiriadedd rhywiol.

Hefyd, er bod **beichiogrwydd a mamolaeth** yn nodweddion gwarchodedig o dan ddeddfwriaeth cydraddoldebau ym Mhrydain Fawr, dim ond gwybodaeth rannol sydd ar gael am anghydraddoldebau o ran beichiogrwydd a chanlyniadau beichiogrwydd. Er enghraifft, dim ond am fod sefydliad elusennol wedi casglu data dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf y bu modd adnabod gwahaniaethau wedi'u hiliaethu mewn canlyniadau mamolaeth. Cafodd bylchau yn y data ar **grefydd** eu nodi gan academyddion a chyfranogwyr o gymdeithasau dysgedig ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar-lein. Yn benodol, dywedodd nifer o'r cyfranogwyr na chaiff data ar **grefydd** eu casglu'n aml mewn arolygon a, phan gânt eu casglu, nad adroddir arnynt fel mater o drefn, neu y cânt eu cyfuno'n aml â chredoau ac arferion, a all guddio anghydraddoldebau.

Hefyd, mewn sawl gweithgaredd ymgynghori, cyfeiriodd y cyfranogwyr at ddiffyg data ar nodweddion personol perthnasol mewn ffynonellau data gweinyddol er mwyn helpu i ddeall materion yn ymwneud ag anghydraddoldebau. Hyd y gwyddom ni, nid yw'r llywodraeth yn casglu data o gwbl ar weithredu cast yn y DU er gwaethaf tystiolaeth ansoddol ar wahaniaethu ar sail cast.

2.3 Grwpiau nad yw'r data arnynt o ansawdd digon da

Hyd yn oed lle y caiff grwpiau perthnasol eu cynnwys mewn data arolygon neu ddata gweinyddol, ceir risgiau bod **ansawdd y data hyn yn wael**. Yn gyntaf, fel y nodwyd yn adran 2.1, mae'n bosibl na chaiff gwybodaeth am nodweddion plant ei chasglu'n uniongyrchol gan y plant eu hunain ond, yn hytrach, y caiff ei darparu gan eu rhieni, eu gofalmwyr, eu hathrawon neu rywrai eraill sy'n gyfrifol am blant. Gall hynny hefyd fod yn wir am breswylwyr cartrefi sy'n absennol dros dro, er enghraifft mewn sefydliad cymunedol. Gall gwybodaeth a gaiff ei rhoi gan ddirprwyon fod yn anghywir. Yn achos data gweinyddol, mae'n aml yn aneglur ai'r unigolyn dan sylw a roddodd y data ai peidio.


Yn ail, gall fod **problemau os bydd eitemau sy'n berthnasol i gynhwysiant ar goll o'r data**. Er enghraifft, mae cwestiynau'r cyfrifiad ar grefydd yn wirfoddol ac felly bydd ganddynt lefelau ymateb is na chwestiynau gorfodol. Hefyd, ymddengys fod lefelau peidio ag ymateb yn gymharol uchel ymhlith grwpiau ethnig mewn rhai ffynonellau data gweinyddol. Mae gwefan Ethnicity Facts and Figures y llywodraeth yn dangos nad oedd data ar grŵp ethnig ar gael ar gyfer rhai mathau o ddata gweinyddol mewn mwy nag 20 y cant o achosion. Gall hyn arwain at duedd yn y data ond, heb wybod pwy nad yw'r wybodaeth hon ar gael ar eu cyfer, nid oes modd canfod cyfeiriad unrhyw duedd.

Yn drydydd, gall gwybodaeth o ffynonellau data a gasglwyd yn flaenorol (er enghraifft mewn astudiaeth banel neu pan gaiff data o wahanol ffynonellau eu cysylltu) fynd yn anghywir dros amser am mai prin yw'r nodweddion sy'n aros yr un peth yn barhaol. Gall nodweddion newid wrth i grwpiau fynegi ei bod yn well ganddynt gael eu dosbarthu mewn categorïau penodol neu am fod categorïau gwahanol yn addas at ddibenion gwahanol. Er enghraifft, bydd yn briodol defnyddio categorïau 'Du' neu 'Asiaidd' mewn rhai achosion ond, yn aml, bydd angen termau manylach. Hefyd, gall llawer o nodweddion pwysig, megis statws o ran anabledd (er enghraifft, o ganlyniad i strôc neu ddamwain) neu safle economaidd-gymdeithasol (o ganlyniad i ddileu swydd) newid yn annisgwyl.

Gall pob un o'r tair problem hyn arwain at fwy o 'sŵn' yn y data, gan arwain at ddarlun mwy niwlog neu at duedd, a all greu darlun camarweiniol. Gallai ansawdd data israddol a chynrychiolaeth annigonol i boblogaethau neu grwpiau penodol o fewn data arwain at amrywiaeth o effeithiau, gan gynnwys gwahaniaethu, camliwio, llai o gyfleoedd mewn bywyd, niwed cudd a marwolaeth, hyd yn oed, i bobl dan amgylchiadau bregus iawn. Felly, mae mynd i'r afael â'r bylchau hyn yn flaenoriaeth.



3. Pa mor gynhwysol yw dulliau presennol y DU o gasglu data?



Mae data yn hanfodol er mwyn deall anghenion ac amgylchiadau grwpiau gwahanol o bobl, am eu bod yn fodd i droi gwybodaeth yn ddealltwriaeth graff a all fod yn sail ar gyfer gweithredu. Dim drwy gasglu data cyflawn a phriodol y bydd modd cyflawni hyn, er mwyn sicrhau bod pawb yn cyfrif ac yn cael eu cyfrif, a bod neb yn cael ei adael ar ôl. Yn ein gweithgareddau ymgynghori, nodwyd amrywiaeth o broblemau y mae angen eu datrys er mwyn i ni allu cyflawni hyn.

3.1 Mynd i'r afael â chyfranogiad mewn gweithgareddau casglu data

Dangosodd gwaith ymchwil a wnaed gyda sefydliadau cymdeithas sifil ac unigolion o grwpiau a phoblogaethau perthnasol fod amrywiaeth eang o ffactorau ymarferol, diwylliannol ac emosiynol sy'n effeithio ar barodrwydd, gallu a chyfle pobl i roi eu gwybodaeth bersonol a chymryd rhan mewn ymarferion ymchwil ffurfiol. Yn fras, gellir rhannu'r rhain yn broblemau sy'n ymwneud ag ymddiriedaeth a dibynadwyedd, parodrwydd i gymryd rhan a hygyrchedd gweithgareddau casglu data. Fodd bynnag, nid yw'r pryderon a'r problemau hyn yn annibynnol ar ei gilydd, ac mae'n bosibl i gyfuniad o'r ffactorau hyn effeithio ar allu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau casglu data.

Cyfeiriwyd at ymddiriedaeth ym mhob un o'n gweithgareddau ymgynghori fel rhwystr rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau casglu data. Roedd hyn yn cynnwys canfyddiad ymhlith sawl cyfranogwr bod ymdeimlad cyffredinol o ddifffyg ymddiriedaeth yn y llywodraeth, a hefyd yn ystadegau'r llywodraeth, yn enwedig ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (yn benodol, nodwyd bod hyn yn effeithio ar bobl o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, grwpiau ethnig lleiafrifol eraill a mudwyr wedi'u dogfennu a heb eu dogfennu), ond nid ymhlith y grwpiau hyn yn unig. Disgrifiodd y cyfranogwyr sut y gallai hyn olygu na chaiff rhai grwpiau eu cynrychioli'n ddigonol neu eu bod yn anweledig i bob pwrpas, gan arwain yn y pen draw at benderfyniadau polisi na fyddant yn adlewyrchu'r poblogaethau hyn yn ddigonol ac a fydd yn lleihau eu hymddiriedaeth ymhellach.

Nododd y cyfranogwyr rywfaint o ansicrwydd a phryder ymhlith grwpiau a phoblogaethau perthnasol ynglŷn â sut y bydd y llywodraeth yn defnyddio eu data o bosibl. Soniodd llawer ohonynt am bryderon y gallai cymryd rhan mewn gweithgareddau casglu data neu ddefnyddio rhai gwasanaethau penodol arwain at driniaeth anghyfartal, gwahaniaethu, neu waethygu eu sefyllfa. Disgrifiwyd hyn gan grwpiau sy'n rhan o'r gwaith o gasglu data, unigolion o grwpiau a phoblogaethau perthnasol a sefydliadau cymdeithas sifil. Dywedodd unigolion eu bod yn teimlo na allent roi gwybod i'r heddlu am droseddau treisgar am eu bod yn credu y byddent mewn perygl o gael eu cadw yn y ddalfa ar ôl i'w statws mewnfudo gael ei ddatgelu. Roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar-lein o'r farn mai cyfrifoldeb y rhai sy'n casglu data yw cyrraedd yr aelodau hynny o gymdeithas a rhoi tawelwch meddwl iddynt, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel a bod anghenion y grwpiau hyn yn cael eu deall a'u hadlewyrchu.

Hefyd yn ein gweithgareddau ymgynghori, tynnwyd sylw at rwystrau ychwanegol rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori a all effeithio ar eu **parodrwydd i gymryd rhan**. Ymhlith y rhain roedd:

- methu ag uniaethu â'r opsiynau sydd wedi'u cynnwys yn yr adnoddau casglu data, a theimlo nad ydynt yn cael eu cynnwys oherwydd defnydd amhriodol o eirfa (er enghraifft, dim cyfle i unigolion nodi eu bod yn bobl drawsryweddol, yn bobl anneuaidd neu'n bobl â rhywedd amrywiol, bod ganddynt genedligrwydd deuol na'u bod yn perthyn i gategorïau amlethnig).

“Rwy'n hoffi dweud ‘Rwy'n dod o [gefndir] Affricanaidd Caribiaidd, mae fy mam o Ghana ac mae fy nhad o Barbados’, ond does dim ffurflen lle y galla’ i ddweud hynny. Wedyn rwy'n teimlo fel fy mod yn cael fy ngwrthod.”

Unigolyn

- blinder yn sgil gormod o ymchwil (er enghraifft, pobl â phroblemau iechyd meddwl a grwpiau ethnig difreintiedig ac wedi'u hiliaethu)
- pwysau o gyfeiriadau gwahanol yn eu bywydau beunyddiol (er enghraifft, ymdopi ag anabledd corfforol, cyfuno gwaith am dâl â gwaith di-dâl)
- fawr ddim budd personol na chymunedol, os o gwbl, o gymryd rhan, yn enwedig lle nad oedd gweithgareddau ymgynghori blaenorol wedi arwain at weithredu neu lle nad oedd canlyniadau diriaethol i'w gweld ar ôl cymryd rhan.

Yn yr un modd, nododd academyddion a chyfranogwyr o gymdeithasau dysgedig na fyddai rhai pobl am gymryd rhan mewn gweithgareddau casglu data o bosibl. Mae hyn yn arwain at 'duedd goroesedd' sy'n golygu bod ymchwilwyr yn canolbwyntio eu hymdrechion ar grwpiau sydd eisoes wedi cymryd rhan ac yn anwybyddu'r rhai heb gynrychiolaeth ddigonol, er nad problem i grwpiau agored i niwed na grwpiau ar y cyrion yn unig yw hon.

Hyd yn oed lle nad oes problemau o ran ymddiriedaeth na dibynadwyedd a bod yr unigolyn yn fodlon cymryd rhan, gwelsom y gall pobl gael eu hatal rhag gwneud hynny o hyd oherwydd **diffyg hygyrchedd ymarferion casglu data**. **Yn gyntaf, gall offerynnau casglu data ar-lein allgáu pobl y mae'n anodd neu'n amhosibl iddynt ddefnyddio dyfeisiau digidol neu bobl nad yw'r sgiliau digidol angenrheidiol ganddynt**. Dywedodd cyfranogwyr o'r llywodraeth fod allgáu digidol yn adlewyrchu bylchau mewn technoleg a sgiliau, a chostau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan. Nodwyd bod diffyg argaeledd Wi-Fi, a'r costau yr eir iddynt wrth gymryd rhan dros y ffôn, yn rhwystro grwpiau a gaiff eu hallgáu'n ddigidol a'r rhai sy'n wynebu caledi ariannol rhag cymryd rhan. Cododd sefydliadau a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad ar-lein bryderon ynglŷn â symud o ddulliau wyneb yn wyneb i arolygon ar-lein yn ystod y pandemig, ac y gall is-grwpiau penodol gael eu hallgáu o ganlyniad i hynny. Cododd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad papur bryderon ynglŷn â'r cynnydd yn nifer yr arolygon a gaiff eu cynnal ar-lein ac ymwybyddiaeth o oblygiadau eu diffyg sgiliau eu hunain. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bod rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gydnabod yr anawsterau sy'n gysylltiedig ag allgáu digidol ac ymateb iddynt er mwyn osgoi rhagor o arferion sy'n allgáu pobl.

Yn ail, **mae'n bosibl nad yw dulliau'n ystyried anghenion gwahanol grwpiau poblogaeth o ran iaith, llythrennedd neu ddealltwriaeth**. Er enghraifft, pwysleisiodd cyfranogwyr o'r llywodraeth fod pobl hŷn, pobl anabl a phobl na allant gymryd rhan oherwydd rhwystrau sy'n gysylltiedig ag iaith neu gyfieithu yn wynebu mwy o risg o gael eu hallgáu o waith ymchwil. Hefyd, cododd y rhai a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad ar-lein bryderon bod unigolion y tybir na allant roi cydsyniad ar sail gwybodaeth yn aml yn cael eu hallgáu o arolygon, megis pobl hŷn neu bobl heb alluedd meddyliol.

Yn drydydd, roedd **hunaniaeth bersonol a nodweddion y rhai sy'n gyfrifol am ddylunio a chwblhau'r gwaith casglu a dadansoddi data** yn bryder i rai grwpiau. Roedd canfyddiad o ddiffyg amrywiaeth o fewn sefydliadau casglu data ac roeddent yn teimlo y byddai gwell cynrychiolaeth i grwpiau a phoblogaethau perthnasol yn y gymuned ymchwil yn sicrhau gwell dealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau, yn mynd i'r afael â rhwystrau rhag cymryd rhan ac yn lleihau'r risg o lethu cyfranogwyr drwy ddyblygu gwaith ymchwil.

3.2 Sicrhau bod y data a gesglir yn diwallu anghenion ymatebwyr a defnyddwyr

Daeth yr angen i gasglwyr data gynnig **categoriâu ystyrlon y gall ymatebwyr eu hadnabod a'u defnyddio i ddisgrifio eu hunain a'u hamgylchiadau** i'r amlwg yn gyson o'n gweithgareddau ymgynghori. Credai pobl fod y labeli a ddefnyddir i gasglu gwybodaeth am nodweddion unigolion wrth gasglu data yn hollbwysig er mwyn galluogi pobl i **ddewis categorïau mewn arolygon ac ar ffurflenni sy'n adlewyrchu eu nodweddion a'u hamgylchiadau personol**

a sicrhau bod y data'n helpu i feithrin **dealltwriaeth gywir ac y gellir cymryd camau gweithredu mewn ymateb i hynny**. Credai pobl fod cyfyngu ar y ffordd y caiff data eu cyflwyno o dan labeli a allai homogoneiddio grwpiau amrywiol ac unigryw yn hynod broblemus a chamarweiniol, ac y gallai fod yn sarhaus hefyd. Os mai gwerth data yw galluogi pobl i gael eu deall yn well, a'u cynrychioli mewn gwasanaethau a pholisïau, rhaid i'r data gynrychioli amgylchiadau a hunaniaethau pobl yn gywir. Mewn data arolygon yn benodol, mae **nifer yr ymatebwyr sy'n dewis** categori grŵp '**arall**' neu '**ethnig**' wedi **cynyddu**, gan gyfyngu ar y gallu i ddeall hunaniaeth unigolyn yn effeithiol.

Teimlai sefydliadau cymdeithas sifil ac unigolion o grwpiau a phoblogaethau perthnasol fod **cwestiynau'n aml yn hen ffasiwn**. Nodwyd hyn yn benodol mewn perthynas â chwestiynau a diffiniadau ynglŷn ag ethnigrwydd, a all gyfuno hil, **ethnigrwydd** a chenedligrwydd a chynnig categorïau eang sy'n cwmpasu amrywiaeth o grwpiau ethnig a tharddiadau cenedlaethol. Nodwyd hyn hefyd mewn cwestiynau am **anabledd** sy'n seiliedig ar gysyniadau hen ffasiwn a diffygiol nad ydynt yn cyfleu profiadau unigolion yn ddigonol (gan gynnwys anghenion, rhwystrau strwythurol a wynebwr a phrofiadau o oresgyn rhwystrau, neu amrywiaeth anableddau, er enghraifft). Galwodd y sefydliadau a'r unigolion a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad ar-lein yn benodol am i **weithgareddau casglu data ar anabledd newid o ganolbwyntio ar y model meddygol**, sy'n ystyried namau neu wahaniaethau unigolyn, a chanolbwyntio ar y model cymdeithasol o anabledd, sy'n ystyried anghenion a safbwyntiau'r unigolyn ac sy'n gweld cymdeithas fel ffactor sylweddol sy'n cyfrannu at analluogrwydd. Gallai hyn wella'r ffordd yr eir i'r afael â'r rhwystrau sefydliadol a strwythurol sy'n cyfyngu ar allu pobl i gymryd rhan mewn cymdeithas.

3.3 Sicrhau bod y data a gesglir o ansawdd digonol i gyfrif pawb mewn cymdeithas a monitro eu canlyniadau yn gywir

Nododd y rhai a gymerodd ran yn ein gweithgareddau ymgynghori amrywiaeth o broblemau ansawdd mewn perthynas â chasglu data, yn enwedig o ran **heriau cysyniadol a diffyg cysondeb a chydlyniant**.

Pwysleisiwyd bod angen cysoni'r data a gesglir ar nodweddion personol er mwyn adlewyrchu nodweddion ac amgylchiadau grwpiau lleiafrifol yn holl ddata gweinyddol a data arolygon cenedlaethol y DU. Hefyd, tynnodd y cyfranogwyr sylw at yr angen i'r diffiniadau, y categorïau a'r mathau o gwestiynau a ddefnyddir i gasglu data ar nodweddion personol fod yn fwy cynhwysol. Teimlai pobl fod diffyg cysondeb yn amharu ar y gallu i ddadgyfuno yn ogystal â chymharu data rhwng gwledydd gwahanol y DU. Dywedodd y rhai a gymerodd ran yn y gweithgareddau ymgynghori fod diffiniadau, dosbarthiadau ac opsiynau ymateb lluosog ar gyfer ethnigrwydd, anabledd, rhyw a rhywedd yn peri problemau

cysyniadol arbennig o heriol. Pwysleisiodd sefydliadau cymdeithas sifil fod y diffyg cysondeb yn y data gweinyddol a gesglir oddi wrth wasanaethau cyhoeddus (er enghraifft ysgolion, heddluoedd, gwasanaethau iechyd) wedi arwain at **ddarlun anghyson o is-grwpiau penodol** (yn arbennig mewn perthynas â ffydd ac ethnigrwydd) a diffyg cysondeb rhwng data “swyddogol” a’r data a gesglir gan sefydliadau cymdeithas sifil ar lawr gwlad. Soniodd y cyfranogwyr o’r llywodraeth a’r ymatebwyr ar-lein fod categorïau Cyfrifiad 2001 ar gyfer **ethnigrwydd** yn dal i gael eu defnyddio’n eang wrth gasglu data, er y cydnabyddir nad yw hyn bob amser yn adlewyrchu amrywiaeth ethnig y boblogaeth ar hyn o bryd yn ddigonol.

Tynnwyd sylw at y diffyg cysondeb yn y defnydd o ddiffiniadau o **anabledd** ledled y DU, sy’n arwain at gofnodi gwybodaeth am anabledd mewn ffyrdd gwahanol. Cyfeiriwyd at anghysondebau rhwng **diffiniadau o’r term ‘difreintiedig’** hefyd fel problem sylweddol i ddadansoddwyr, a oedd yn arbennig o broblemus wrth geisio cyflawni dadansoddiadau ar gyfer ardaloedd lleol penodol.

Soniwyd am y problemau sy’n codi o ganlyniad i **feintiau sampl bach** mewn arolygon o gartrefi ym mhob un o’n gweithgareddau ymgynghori, bron. Mae’r rhain yn arwain at **ddiffyg manylder** yn y data, sy’n tanseilio dealltwriaeth o is-grwpiau penodol o’r boblogaeth, boed fesul sector, ardal ddaearyddol neu nodwedd, a gall hyn olygu bod grwpiau cyfan yn anweledig mewn data. Yn aml, er mwyn cael gwybodaeth ar lefel leol am boblogaethau neu nodweddion grwpiau penodol, rhaid cyfuno grwpiau llai yn categorïau mwy. Mae’n bosibl na fydd y categorïau mwy hyn yn adlewyrchu poblogaethau sydd o ddiddordeb yn ddigonol ac na fydd unigolion yn gallu uniaethu â chyfuniadau mwy; dywedwyd y gallai parhau i ddefnyddio’r categori eang ‘BAME’ (Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol) ymyleiddio a dieithrio grwpiau a phoblogaethau perthnasol.

Nododd y cyfranogwyr fod meintiau sampl bach hefyd yn amharu ar ein gallu i gyflawni **dadansoddiadau croestoriadol**. Er enghraifft, er y gall gwybodaeth am ddosbarthiadau oedran a rhyw fod ar gael ar gyfer ardaloedd daearyddol bach, bydd meintiau sampl bach yn atal rhywun rhag dadansoddi profiad menywod mudol hŷn mewn ardaloedd penodol. Awgrymodd yr ymatebwyr i’r ymgynghoriad ar-lein y gellid goresgyn y problemau sy’n gysylltiedig â meintiau sampl mewn arolygon o gartrefi drwy ddefnyddio **dulliau ansoddol** ar gyfer poblogaethau penodol, gan nodi bod i ddulliau meintiol gyfyngiadau o ran deall profiadau go iawn grwpiau gwahanol o bobl.

Codwyd **amllder casglu data** fel mater pwysig hefyd. Cydnabuwyd bod cyfrifiadau’r DU yn ffynhonnell werthfawr o ddata cynhwysol, sy’n cynnig cipolwg na all ffynonellau data eraill mo’i gynnig, ond mae’r bwlch o 10 mlynedd rhwng cyfrifiadau’n golygu bod y data sy’n deillio ohonynt yn aml wedi dyddio ers sawl blwyddyn. Gall y data cyd-destunol a ddarperir gan y cyfrifiad ar nodweddion ardaloedd lleol helpu i ddeall y profiad o anfantais, ond byddant yn fwy gwerthfawr pan gânt eu hategu gan y Mynegeion Amddifadedd Lluosog ar gyfer ardaloedd bach. Fodd bynnag, caiff y Mynegeion Amddifadedd Lluosog eu llunio



ar gyfer gwledydd y DU ar wahân a'u diweddarau ar adegau gwahanol, felly ni allant gynnig dealltwriaeth wedi'i chysoni o amddifadedd ardaloedd lleol ledled y DU. Hefyd, ceir rhwystredigaeth na chaiff dadansoddiadau manwl o feysydd allweddol sy'n ymwneud â chydrraddoldeb (megis cyfeiriadedd rhywiol) a ariennir drwy arian cyhoeddus eu cynnal yn aml nac yn seiliedig ar fwriad strategol hirdymor, yn ôl pob golwg.

Yn olaf, codwyd pryder gan academyddion a chyfranogwyr o gymdeithasau dysgedig mewn perthynas â **defnyddio data sydd eisoes ar gael fel data dysgu mewn algorithmau dysgu peirianyddol**. Bydd unrhyw dueddiadau yn y data hynny, er enghraifft os byddant yn camgynrychioli rhannau penodol o'r boblogaeth, yn arwain at ragfynegiadau sy'n anghynrychiadol neu sydd â thuedd. Dywedwyd y gallai hyn olygu y bydd tuedd yn parhau wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol.



4. Sut y gallwn sicrhau y caiff pawb mewn cymdeithas eu cynrychioli mewn dadansoddiadau ac allbynnau data?

Un neges glir a ddaeth i'r amlwg yn ein gweithgareddau ymgynghori oedd pwysigrwydd **cadernid data**, o ran cynrychioldeb a dilysrwydd ystadegol. Hefyd, mae **perthnasedd a manylder y data** yn agweddau hanfodol y dylid eu hystyried yn ddigonol. I ddarparwyr gwasanaethau lleol, gallai hyn olygu cael data ar y boblogaeth leol y maent yn darparu gwasanaethau penodol ar ei chyfer. I ddefnyddwyr sy'n ymwneud ag eiriolaeth ranbarthol neu genedlaethol, gallai olygu cael data er mwyn deall materion sy'n effeithio ar faes cydraddoldeb neu grŵp penodol mewn ffordd sy'n golygu bod modd dadgyfuno yn ôl nodweddion sydd o ddiddordeb. Mae gallu archwilio sut mae nodweddion gwahanol yn croestorri i greu profiadau gwahanol i unigolion mewn cymdeithas yn hollbwysig er mwyn sicrhau nad ydym yn 'gadael neb ar ôl'. Yn yr un modd, mae argaeledd data sy'n fanwl yn ddaearyddol yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod gan y rhai sy'n llunio polisiau ar lefel leol y dystiolaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth ystyried data i lywio agenda 'codi'r gwastad' Llywodraeth y DU, ond mae hefyd yn hanfodol ar gyfer sefydliadau a gwasanaethau lleol penodol.

Nododd unigolion a grwpiau a gymerodd ran yn ein gweithgareddau ymgynghori amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar y ffordd y maent yn defnyddio data ac i ba raddau y mae ystadegau'n adlewyrchu profiadau pawb mewn cymdeithas.

Ar y cyfan, roedd y cyfranogwyr yn cydnabod y gallai sefydliadau ac unigolion gael gfael ar lawer iawn o ddata ar rai pynciau, ond nid ar bob pwnc o bell ffordd. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo bod problemau ynghlwm wrth geisio meithrin dealltwriaeth y gellir gweithredu arni o'r data sydd ar gael, oherwydd bylchau mewn data neu am fod data cyfun yn amharu ar werth a defnyddioldeb. Nodir isod y problemau y tynnwyd sylw atynt yn gyson yn y gwahanol ddigwyddiadau ymgynghori.

4.1 Diffyg manylder mewn data i allu deall is-grwpiau penodol a chroestoriadedd nodweddion personol

“Er efallai y gallwn i ddweud mai'r cymunedau Asiaidd yn ein hardal leol yw X, Y neu Z, bydd hi'n anoddach wedyn i mi ddweud 'Beth am y menywod Asiaidd yn unig?' neu 'Beth am fenywod Asiaidd sydd ag anabled?'”

Sefydliad Cymdeithas Sifil sy'n gweithio o blaid cydraddoldeb hiliol ac ethnig

Mae'r cyfranogwyr wedi ystyried yr her hon o ran i ba raddau y mae'r data'n **addas i'r diben**, yn cael eu cofnodi **mewn fformatau safonedig** ac yn cael eu cadw mewn cyflwr sy'n golygu eu bod yn **ganfyddadwy**, yn **hygyrch** ac **y gellir eu defnyddio ar gyfer gwaith dadansoddi**.

Drwy gydol yr ymarferion ymgynghori, pwysleisiai'r cyfranogwyr **na ellir dadgyfuno data ar nodweddion allweddol** a phwysigrwydd deall y ffordd y mae gwahanol nodweddion yn croestorri a dylanwad hyn ar ganlyniadau amrywiol. Er enghraifft, dywedodd y sefydliadau a gymerodd ran yn ein gweithgareddau ymgysylltu nad yw'n ddigon gweld data o ddiddordeb wedi'u dadgyfuno fesul grŵp ethnig a bod angen nodweddion eraill, megis grŵp ethnig yn ôl oedran, neu grŵp ethnig yn ôl rhyw.

Teimlai'r cyfranogwyr fod yr arfer bresennol o gyfuno nodweddion personol mewn categorïau ehangach megis oedran, ethnigrwydd, ffydd, neu gyfeiriadedd rhywiol yn amharu'n ddifrifol ar gynwysoldeb ystadegau a hefyd y gallai gamliwio problemau ac anghenion cymunedau llai a chymunedau sydd wedi'u hymyleiddio'n fwy. Nododd y sefydliadau cymdeithas sifil a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil hwn, fod diffyg manylder, hyd yn oed yn y data yr ystyrir eu bod o'r safon uchaf, megis y cyfrifiad, yn golygu na allent feithrin dealltwriaeth gynhwysol o grwpiau ar draws yr ystod o nodweddion personol. Roeddent yn teimlo bod hyn nid yn unig yn effeithio ar eu gwasanaethau, ond hefyd ar effeithiolrwydd gwasanaethau cyhoeddus a pholisi cyhoeddus ac, yn y pen draw, ar ganlyniadau pobl mewn bywyd.

Soniodd sefydliadau cymdeithas sifil a'r sefydliadau hynny a gymerodd ran yn ein hymgyngoriad ar-lein am eu hymdrechion i fynd i'r afael â'r diffyg manylder, drwy ddatblygu ffynonellau eraill o ddata i lenwi'r bylchau. Ymhlith y rhain roedd:

- dibynnu ar ymchwil ansoddol
- defnyddio data gweinyddol a gasglwyd gan wasanaethau lleol
- cynnal eu harolygon eu hunain gyda defnyddwyr gwasanaethau
- ceisio cael gafael ar ddata drwy wneud ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth
- defnyddio data wedi'u cyhoeddi i allosod data ar lefel genedlaethol mewn cyd-destun lleol

Teimlid y gallai'r broses hon arwain at wallau a thuedd, a chydabuwyd bod hynny'n effeithio ar ansawdd a chywirdeb y wybodaeth sydd ar gael. Hefyd, cydnabuwyd bod dulliau o'r fath yn rhoi baich trwm ar sefydliadau ac unigolion sydd fel arfer â sgiliau ac adnoddau cyfyngedig i gasglu, coladu a/neu ddadansoddi data.

Meysydd eraill y nodwyd eu bod yn peri pryder penodol oedd **diffyg data ar grwpiau ar y cyrion a grwpiau lleiafrifol neu achosion lle y gall y nodwedd berthnasol fod yn un dros dro ond sy'n arwain at effaith hirdymor.**

Dywedodd y sefydliadau cymdeithas sifil fod data'n arbennig o brin o'r canlynol:

- grwpiau a ddiffiniwyd yn fwy diweddar neu na chânt eu deall cystal (er enghraifft, y rhai a gaiff eu disgrifio fel pobl niwroamrywiol, yn enwedig menywod niwrowahanol)
- y rhai a gaiff eu disgrifio fel "anos eu cyrraedd" (er enghraifft grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, cyn-garcharorion, ceiswyr lloches, dynion ifanc Affricanaidd Caribiaidd)
- aelodau o rai mathau o sefydliadau cymunedol, er enghraifft carchardai
- grwpiau y caiff data arnynt eu casglu mewn modd ansafonedig (gan olygu eu bod yn ddrud i'w coladu a'u cyhoeddi)
- y rhai sydd â nodweddion neu amgylchiadau dros dro, sy'n ei gwneud yn anos nodi croestoriadedd â chanlyniadau o ddiddordeb (er enghraifft, nifer y bobl feichiog mewn gwaith)
- grwpiau y canfyddir nad oes llawer o ddiddordeb gwleidyddol mewn cyhoeddi data arnynt (er enghraifft, niferoedd ceiswyr lloches, carcharorion byrdymor neu fenywaidd neu bobl ddigartref)



Teimlid hefyd **na all data ystadegol ar eu pen eu hunain gynnig dealltwriaeth gynhwysfawr o brofiad go iawn**. O ystyried cymhlethdod, helaethrwydd a chroestoriadedd materion sy'n effeithio ar fywydau pobl, roedd y rhai a gymerodd ran yn y gweithgareddau ymgynghori yn gyson eu barn ei bod yn hollbwysig gwneud gwaith dadansoddi ansoddol yn ogystal â chynhyrchu ystadegau. Tynnwyd sylw at hyn fel ffordd o feithrin dealltwriaeth lawnach a manylach o brofiadau go iawn unigolion, a theimlai'r cyfranogwyr y gellid meithrin mwy o gynwysoldeb drwy ddatblygu darlun mwy cyfannol o gymunedau drwy ddefnyddio cyfuniad o ddadansoddiadau ansoddol a meintiol. Hefyd, nodwyd bod llawer o wasanaethau, oherwydd **diffyg allbynnau amserol**, yn dibynnu ar waith ymchwil ansoddol a data mwy anecdotaidd er mwyn deall anghenion ac amgylchiadau grwpiau a phoblogaethau perthnasol. Mae sefydliadau cymdeithas sifil yn rhoi gwerth ar wybodaeth o'r fath, ond cydnabyddir eu bod yn ddata llai cadarn ar gyfer cynllunio gwasanaethau o ran amcangyfrif lefelau absoliwt yr angen am wasanaethau.

Hefyd, dywedodd rhai o'r sefydliadau a'r unigolion a gymerodd ran yn y gweithgareddau ymgynghori y gallai'r **diffyg cysylltiadau rhwng setiau data gweinyddol presennol** fod yn gyfystyr â cholli cyfle i ddeall grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn well. Roedd rhai o'r farn bod hyn yn deillio o'r ffaith nad oes dynodydd unigryw cyffredin (megis rhif GIG) er mwyn gallu cymharu unigolion a chartrefi rhwng setiau data gwahanol, a "meddylfryd seilo" o fewn polisïau a gwasanaethau'r llywodraeth. Mewn rhai achosion, teimlid bod hyn yn cael ei waethygu gan ddeddfwriaeth wan neu ddiffyg deddfwriaeth, a dywedodd rhai sefydliadau nad oedd y fframwaith ar gyfer rhannu data personol, a gyflwynwyd o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol, yn ddigon eglur er mwyn galluogi llif data i mewn i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), er enghraifft. O ystyried yr adnoddau a'r sgiliau a geir o fewn SYG, cafwyd galwad i SYG chwarae rhan fwy blaenllaw yn y gwaith o goladu a chysylltu data mewn ffordd ystyrlon sy'n cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Rhaid cydnabod, fodd bynnag, fod rhai'n gwrthwynebu'r syniad o gysylltu data am eu bod yn ofni y gallai data gael eu camddefnyddio i niweidio grwpiau penodol.

4.2 Diffyg adnoddau a/neu sgiliau i ddod o hyd i ddata a'u dadansoddi

"Yr hyn a welwn ni, ar y cyfan, yw bod y data'n bodoli, ond bod angen adnoddau o fewn y sefydliad i allu treulio amser, a defnyddio arbenigedd mewn gwyddor data, i gyfuno'r data hynny'n fodelau data penodol y byddai eu hangen arnom er mwyn gallu eu defnyddio wedyn."

Sefydliad cymdeithas sifil sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Roedd **neilltuo adnoddau ar gyfer ymchwil a'r sgiliau sydd eu hangen i gaffael a dadansoddi data** yn fater cyffredin a godwyd yn y gweithgareddau ymgynghori gwahanol, yn enwedig gan sefydliadau cymdeithas sifil, unigolion o grwpiau a phoblogaethau perthnasol, a chyfranogwyr o lywodraeth leol. Roedd sefydliadau ac unigolion sydd â mwy o brofiad o weithio gyda data yn cydnabod y tensiwn rhwng y dyhead i gael gaffael ar ddata manylach a goblygiadau hyn i ddefnyddwyr data. Er enghraifft, nid oes gan y rhan fwyaf o sefydliadau cymdeithas sifil, na llawer o awdurdodau lleol llai, ddigon o gyllideb i allu cyflogi pobl sydd â'r sgiliau dadansoddi data sydd eu hangen arnynt ac, felly, ni allant fanteisio ar sgiliau ymchwilio yn fewnol. Am y rheswm hwn, byddai'n well ganddynt gael data crynodol wedi'u rhannu yn ôl demograffeg gymdeithasol a nodweddion personol allweddol ar lefel ddigon manwl. Mae hyn yn arbennig o wir i'r rhai sy'n gweithio'n fwy uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaethau. Roedd y chyfranogwyr yn awyddus i ddata gael eu darparu er mwyn galluogi defnyddwyr i archwilio'r croestoriad rhwng nodweddion personol, fel bod modd rhannu'r data'n is-grwpiau llai (er enghraifft, dangos gwahaniaethau crefyddol o fewn grwpiau ethnig, dadansoddiadau o oedran a rhyw ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig, a chyfeiriadedd rhywiol yn ôl statws anabledd).

4.3 Diffyg allbynnau addas a hygyrch

"Nid yw'n dda i ddim dweud 'Mae pobl BME fel hyn,' neu beth bynnag. Mae hynny'n gwbl ddiwerth. [Mae angen i chi] fod wedi eu rhannu mewn ffordd ystyrlon y gall pobl allu uniaethu â hi... i lawr i lefel mor fanwl â phosibl, fel y gallwch ddweud, 'Os gwnawn ni hyn, bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned hon.' Yn hytrach na dweud, 'Os gwnawn ni hyn, gallai effeithio ar y grŵp anferth hwn o bobl sydd â bywydau gwahanol iawn.'"

Sefydliad cymdeithas sifil sy'n gweithio o blaid cydraddoldeb hiliol ac ethnig

"Rwy'n credu weithiau y gall fod yn her gwybod pa wybodaeth sydd gan y llywodraeth. Yn enwedig pan fyddwn yn gwneud ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth neu'n gofyn cwestiynau seneddol, er enghraifft, gallai'r data gael eu rhyddhau heb ddangos beth yn union sydd gan y llywodraeth mewn gwirionedd, na beth yw cwmipas y dystiolaeth sydd ar gael, y gallem ei defnyddio, os yw hynny'n gwneud synnwyr. Rwy'n credu nad ydym bob amser yn gwybod beth sy'n cael ei gasglu."

Sefydliad cymdeithas sifil sy'n gweithio gydag unigolion sy'n feichiog neu ar gyfnod mamolaeth

Mewn perthynas ag adrodd ar ddata cydraddoldeb, un o'r prif bwyntiau a bwysleisiwyd gan unigolion, grwpiau a sefydliadau a gymerodd ran yn ein gweithgareddau ymgynghori yw ei bod **yn anodd i grwpiau a phoblogaethau perthnasol uniaethu ag allbynnau data oherwydd y categorïddio eang a'r diffyg manylder**, fel y nodwyd yn yr adrannau blaenorol. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith **nad oes digon o ddata hygyrch ar gael yn hawdd ar gyfer gwaith dadansoddi**. Er enghraifft, dywedwyd ei bod yn cymryd llawer o amser i drawsnewid data wedi'u cyflwyno mewn tablau data traddodiadol i fformat haws ei ddefnyddio ar gyfer gwaith dadansoddi. Er bod rhai sefydliadau yn chwilio am ddata crai sydd ar gael ar gyfer eu gwaith dadansoddi eu hunain, roedd angen i eraill gael data a oedd eisoes wedi'u dadansoddi mewn ffyrdd arbennig i ddiwallu eu hanghenion. Er enghraifft, dywedodd sefydliadau a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad ar-lein eu bod wedi'i chael hi'n anodd archwilio data nad oeddent eisoes wedi'u dadansoddi ac y bu'n rhaid iddynt lawrlwytho a dadansoddi data crai. Roedd sefydliadau cymdeithas sifil cenedlaethol mwy, yn enwedig y rhai â chylch gwaith eiriolaeth, yn tueddu i feddu ar ddealltwriaeth dda o'r data allweddol sydd ar gael ar gyfer y grwpiau roeddent yn gweithio gyda nhw, ond dywedodd sefydliadau cymdeithas sifil llai o faint a mwy lleol eu bod yn fwy ansicr ynghylch pa ddata yn union oedd ar gael ac o ble a chan ba sefydliad.

"Rydym yn edrych arnynt ac mae'n gallu bod yn eithaf anodd eu dehongli weithiau. Problemau sydd wedi cael eu crybwyll yn barod, fel bod rhaid darllen llwythi o nodiadau esboniadol a, hyd yn oed wedyn, efallai na fyddant yn esbonio pethau'n llawn. Maent yn dechnegol iawn."

Sefydliad cymdeithas sifil sy'n gweithio gyda phobl hŷn

Nodwyd bod defnyddio **iaith syml** er mwyn helpu i ddehongli ystadegau a rhoi sicrwydd y caiff y ffigurau eu cynhyrchu gan "ffynonellau dibynadwy" yn elfennau allweddol wrth gael gafael ar wybodaeth a bod â hyder ynddi. Er mwyn bod yn gynhwysol, pwysleisiodd y cyfranogwyr y **dylai ffeithiau a ffigurau fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau** er mwyn i gynulleidfaoedd amrywiol allu eu defnyddio. Teimlid bod lledaenu canfyddiadau mewn fformat ar-lein yn unig, boed ar ffurf tablau data, erthyglau ar-lein neu fwletinau ystadegol, yn atal pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol rhag cael gafael arnynt, er y gall y data ymwneud â nhw ac, yn lle hynny, fod rhaid iddynt ddibynnu ar drydydd partion, fel y cyfryngau, i lledaenu canfyddiadau drwy ddulliau mwy traddodiadol.



5. Beth yw'r enghreifftiau o arferion da a beth yw'r amodau sy'n galluogi cynwysoldeb i ffynnu?

Un o'r cwestiynau a ystyriwyd gan y Tasglu oedd sut y gallwn ddysgu o brofiadau yma yn y DU ac yn ehangach er mwyn gwella ein dull gweithredu mewn perthynas â chydraddoldebau a chynhwysiant yn y dyfodol. Yn yr adran hon, byddwn yn tynnu sylw at enghreifftiau o arferion addawol sydd wedi cael eu rhannu â ni gan gyfranogwyr yn yr ymgynghoriadau, neu'r hyn rydym yn ymwybodol ohono drwy ein profiad ein hunain. Gobeithiwn y byddant o gymorth er mwyn dangos rhai ffyrdd posibl o roi ein hargymhellion ar waith.



5.1 Meithrin ymddiriedaeth drwy ymgysylltu

Un neges bwysig a glywsom gan gyfranogwyr yn ein hymgyngoriadau oedd bod angen system y gellir ymddiried ynddi, sy'n helpu pob grŵp mewn cymdeithas i ddeall y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhannu data.

Yn y DU, caiff ystadegau'r llywodraeth eu cynhyrchu'n seiliedig ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr ystadegau ystyried 'hawliau' pobl y caiff eu data eu casglu, gan newid y pwyslais o'r data i'r unigolion sy'n rhoi eu gwybodaeth. Ochr yn ochr â'r Cod Ymarfer, mae rheoleiddiwr ystadegau'r DU, sef y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, wedi cyhoeddi canllawiau ar ennyn hyder yn y ffordd y caiff data eu trin a'u defnyddio. Mae'r canllawiau hyn yn annog cynhyrchwyr i ystyried hawliau'r bobl sy'n rhoi eu data er budd y cyhoedd, a hynny mewn modd rhagweithiol. Mae'n hollbwysig parchu'r hawliau hyn er mwyn diogelu a grymuso dinasyddion yn ystod y broses hon.

Ceir nifer o adnoddau arferion da y gall cynhyrchwyr ystadegau eu defnyddio hefyd. Er enghraifft, mae Canfas Moeseg Data'r Sefydliad Data Agored yn distyllu'r cwestiynau moesegol allweddol y dylai ymchwilyr eu hystyried, a hynny mewn ffordd weledol.

5.2 Ateb y cwestiynau cywir

Er mwyn creu system ystadegol gynhwysol, tynnodd y cyfranogwyr mewn trafodaethau bord gron sylw at bwysigrwydd sylfeini cadarn. Nodwyd arferion da o ran y ffordd y mae dadansoddwyr yn y llywodraeth yn gweld eu hunain, gan ddeall mai eu prif rôl yw cydweithio ag eraill i bennu ac ateb cwestiynau sy'n bwysig i gymdeithas, yn hytrach na chynhyrchu data a thystiolaeth. Mae'r gwahaniaeth yn gynnwl ond yn bwysig. O'r sylfeini hyn, mae'n haws gofyn i ni'n hunain a oes pobl neu brofiadau ar goll o'r ffordd y caiff y cwestiynau hynny eu hateb.

O edrych y tu hwnt i'r DU, cafodd y syniad y bydd ystadegau ar eu mwyaf gwerthfawr pan fyddant yn ateb cwestiynau cymdeithas ei ategu mewn adolygiad o fesur allgáu cymdeithasol gan Statistics Canada a Sefydliad Cenedlaethol Ystadegau a Daearyddiaeth Mecsico. Tynnodd yr ymchwilwyr sylw at y ffaith ei bod yn bwysig deall y prif gwestiynau cymdeithasol a chwestiynau polisi wrth ddatblygu dangosyddion allgáu cymdeithasol, a mynd i'r afael â nhw, o'r cychwyn cyntaf.



5.3 Ymgysylltu â phob cymuned

Mae'r broses helaeth o ymgysylltu â chymunedau sydd wrth wraidd y gwaith o gynnal y cyfrifiadau ledled y DU yn enghraifft arall o arferion da. Caiff pobl eu hannog i gymryd rhan drwy greu rhwydweithiau o sefydliadau, arweinwyr cymunedol ac elusennau sy'n hwyluso cysylltiadau uniongyrchol â grwpiau a phoblogaethau perthnasol. Hefyd, ymgysylltir yn uniongyrchol ag aelodau o'r cyhoedd er mwyn sicrhau y ceir darlun cytbwys o bryderon ac anghenion. Mae meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch yr hyn sy'n bwysig i bobl wedi helpu ymchwilwyr i gyfathrebu'n fwy effeithiol ynglŷn â phwysigrwydd y data a ddarperir ganddynt. Mae gweithio gydag arbenigwyr yn y gymuned a all roi cyngor ar y dulliau gorau o gyfathrebu â grwpiau lleol a'r iaith a fyddai fwyaf effeithiol hefyd yn bwysig iawn.

“Nid drwy weiddi mae meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae angen cydnabod y gymuned”

Sefydliad cymdeithas sifil sy'n cefnogi'r gymuned Tsieineaidd

Mae Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth hefyd wedi cyhoeddi Strategaeth Ymgysylltu â Defnyddwyr newydd er mwyn rhoi canllawiau ymarferol ar ymgysylltu â defnyddwyr. Mae'r strategaeth yn pwysleisio'r canlynol: "we don't need a few people thinking about inclusivity (or user engagement) perfectly, we just need lots of people trying their best to do it well and working together to make it happen as part of business as usual".

5.4 Partneriaethau

Bydd partneriaethau'n gweithio'n effeithiol pan fyddant yn dod ag amrywiaeth o bobl ynghyd. Gall hyn ein herio i feddwl yn wahanol a phennu disgwyliadau uwch. Mae swyddfa ystadegau gwladol Colombia wedi sefydlu grŵp amlddisgyblaethol er mwyn helpu i brif ffrydio dull gweithredu croestoriadol. Ymhlith yr aelodau mae ystadegwyr, economegwyr, seicolegydd, anthropolegydd a chynghorwyr eraill. Mae'r grŵp hwn wedi dechrau llunio canllawiau ar ddadgyfuno data ac wedi treialu cwestiynau er mwyn mesur amrywiaeth o ran cyfeiriadedd rhywiol a rhywedd mewn arolygon.

5.5 Cynwysoldeb mewn gweithgareddau casglu data arferol

Wrth gynnal arolygon, y ffrâm samplu safonol yw cartrefi. Fodd bynnag, mae'r un mor bwysig ystyried poblogaethau nad ydynt yn rhan o gartrefi, megis preswylwyr sefydliadau cymunedol (er enghraifft cartrefi gofal, carchardai), cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phobl ddigartref. Daw un enghraifft o ddulliau cymharol o fynd i'r afael â'r materion hyn o Awstralia. Yma, gwneir ymdrech i gynnwys preswylwyr nad ydynt yn rhan o gartrefi drwy ddefnyddio sampl o restr o anheddau nad ydynt yn gartrefi, fel gwestai a motelau. Yn yr un modd, mae'r hyn sy'n cyfateb i'r Arolwg o'r Llafurlu yn UDA (y 'Current Population Survey') hefyd yn ceisio cynnwys preswylwyr nad ydynt yn rhan o gartrefi; mae'r ffrâm samplu haenedig yn cynnwys haen 'aneddau grwpiau' sy'n cynnwys yr unedau preswyl hynny lle mae preswylwyr yn rhannu cyfleusterau neu'n cael gofal ffurfiol.

5.6 Datblygu dulliau newydd o gasglu data mewn ffordd gynhwysol

Cafodd ymdrechion Statistics Canada i fod yn gynhwysol ac yn amserol wrth roi cipolwg ar brofiadau yn ystod y pandemig sylw mewn fforwm polisi cyhoeddus a oedd yn edrych ar arloesedd ac arweinyddiaeth yn ystod y pandemig. Dangoswyd sut yr aeth Statistics Canada a Siambr Fasnach Canada ati i gydweithio i lunio'r Canadian Survey on Business Conditions. Y dull casglu data a ddefnyddiwyd oedd cyfrannu torfol, gan ddefnyddio e-bost i annog pobl i ateb arolwg ar-lein. Lansiodd yr arolwg o fewn diwrnodau ar ôl i'r economi gau er mwyn casglu data "amser real" ar effaith y pandemig. Rhoddodd Statistics Canada ffocws

arbennig ar y ffordd roedd busnesau a arweinir gan bobl o gefndiroedd lleiafrifol yn ymdopi, gan ofyn i berchenogion busnesau nodi canrannau'r bobl yn eu busnesau yn ôl hil, ethnigrwydd, rhyw, a ydynt yn bobl frodorol ac a ydynt yn ystyried eu hunain yn bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol, drawsryweddol, gwiar a/neu ddeuysbrydol. Dywedodd Patrick Gill o Siambr Fasnach Canada: "Mae effaith y dirwasgiad hwn yn cael ei deimlo mewn ffyrdd gwahanol gan grwpiau demograffig gwahanol i'r dirwasgiad diwethaf ac nid oedd y ffyrdd traddodiadol o ofyn cwestiynau yn cyfleu hynny, yn hytrach na threulio llawer o amser yn creu ei harolwg ei hun, symudodd yn gyflymach drwy ddefnyddio methodoleg cyfrannu torfol i ledaenu'r arolwg a gweithio gyda'r gymuned fusnes i lunio'r cwestiynau pwysicaf."

Gwnaeth Statistics Canada hefyd ymgysylltu â phobl anabl ar gyfer arolwg cyfrannu torfol ar y ffordd roedd pobl ag anableddau'n ymdopi yn ystod y pandemig. Gweithiodd gyda sefydliadau gan gynnwys Children First a Vanier Institute of the Family er mwyn deall profiadau o fagu plant yn ystod y pandemig. Bydd Statistics Canada yn llunio egwyddorion ar gyfer ffyrdd priodol o ddefnyddio data a gesglir drwy gyfrannu torfol er mwyn rhannu arferion addawol ag eraill. Yn y DU, cynhaliodd Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yr Arolwg LGBT cenedlaethol yn 2017 er mwyn casglu gwybodaeth am brofiadau pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol yn y DU. Roedd yr ymateb i'r arolwg yn fwy nag a welwyd erioed o'r blaen, a chymerodd fwy na 108,000 o bobl ran. Roedd hyn yn fodd i feithrin dealltwriaeth graff o brofiadau'r grwpiau hyn ym meysydd diogelwch, iechyd, addysg a chyflogaeth.



5.7 Defnyddio'r data sydd eisoes ar gael yn y ffordd orau er mwyn bod yn fwy cynhwysol

Un enghraifft dda o ddefnyddio data gweinyddol a chysylltu data er mwyn bod yn fwy cynhwysol yw prosiect health and homelessness in Scotland Llywodraeth yr Alban. Aeth y prosiect hwn ati i gysylltu data awdurdodau lleol ar ddigartrefedd â data'r GIG ar dderbyniadau i'r ysbyty, ymweliadau gan gleifion allanol, presgripsiynau a chamddefnyddio cyffuriau, yn ogystal â gwybodaeth am farwolaethau o Gofnodion Cenedlaethol yr Alban er mwyn archwilio'r gydberthynas rhwng digartrefedd ac iechyd yn yr Alban. Roedd yn cynnwys tryloywder mewn perthynas â'r broses asesu risg, a olygai fod gan bobl sy'n rhannu ac yn defnyddio'r data fwy o ymddiriedaeth yn Llywodraeth yr Alban. Cyhoeddwyd yr asesiad o'r effaith ar breifatrwydd data ochr yn ochr â'r prif adroddiad dadansoddi, gan gynnwys y cais gwreiddiol am y data, sut y byddent o fudd i'r cyhoedd, manylion cymeradwyaeth y cais a sut y gallai eraill gael gafael ar y data. Y dull hwn yw'r arfer safonol ar gyfer pob un o gyhoeddiadau Llywodraeth yr Alban sy'n seiliedig ar gysylltu data erbyn hyn.

Enghraifft arall o ddefnyddio data sydd eisoes ar gael er mwyn cael gwybodaeth fwy cynhwysol yw dadansoddiad SYG o farwolaethau sy'n gysylltiedig â'r Coronafeirws (COVID-19) yn ôl grŵp ethnig, Cymru a Lloegr. Ni chaiff ethnigrwydd ei gofnodi ar dystysgrifau marwolaeth ac, felly, er mwyn ymgymryd â'r dadansoddiad hwn, cafodd marwolaethau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws (COVID-19) eu cysylltu â Chyfrifiad 2011 yng Nghymru a Lloegr. Galluogodd hyn SYG i gynhyrchu ystadegau ar farwolaethau o ganlyniad i COVID-19 yn ôl grŵp ethnig, gan ddatgelu pa grwpiau ethnig oedd yn wynebu mwy o risg o farw o COVID-19, a helpu i adnabod grwpiau y mae'r clefyd hwn wedi cael effaith anghymesur arnynt. Mae data wedi'u cysylltu hefyd wedi cael eu defnyddio i archwilio Marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn ôl grŵp ethnig yn Lloegr.

5.8 Lledaenu gwybodaeth a chyfathrebu mewn ffordd gynhwysol

“Rwy'n siŵr bod pob un ohonom wedi bod i gyfarfodydd diddiwedd lle byddwn ni'n rhoi ein barn a bydd y gwasanaeth rydym yn ei helpu'n dweud, 'Diolch yn fawr.' A dyna'r tro olaf i chi glywed am y peth, a bydd yr hyn y gwnaethom ei argymell yn cael ei anwybyddu gan amlaf.”

Sefydliad cymdeithas sifil sy'n gweithio gydag unigolion trawsryweddol, unigolion anneuaid ac unigolion â rhywedd amrywiol

Gellir gwella ymddiriedaeth a thryloywder drwy roi adborth mwy effeithiol. Nodwyd bod arferion da o ran cyfleu sut y caiff data eu defnyddio neu pam na chafodd awgrymiadau eu rhoi ar waith yn ffordd dda o annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn gwaith ymchwil, a'i wneud yn fwy cynhwysol.


“Maen nhw’n gwneud hyn yn dda iawn yn Essex [Understanding Society, Prifysgol Essex] oherwydd maen nhw’n anfon cylchlythyr atoch chi tua dwywaith y flwyddyn yn dweud beth maen nhw wedi’i wneud â’r data. Ac rydych chi’n meddwl eich bod chi’n cyfrannu, ac maen nhw’n gwneud pethau rhyfeddol â’r data o ran edrych ar y boblogaeth, a bydd hynny’n bwydo i mewn - mae’n academiaidd iawn, fel y gallwch chi ddychmygu os mai Prifysgol Essex sy’n gwneud hyn - a bydd hynny’n bwydo i mewn i bob math o bolisiau gan y llywodraeth. Wedyn byddwch chi’n teimlo fel eich bod chi’n cyfrannu at y penderfyniadau polisi hyn, dim ond drwy lenwi arolwg unwaith y flwyddyn ar-lein.”

Unigolyn

Mae hyn yn dangos pwysigrwydd cyfathrebu’n effeithiol â darpar gyfranogwyr gwaith ymchwil, drwy ddangos sut y caiff cyfrinachedd eu data ei barchu a rhoi adborth ar y ffordd y cafodd eu data eu defnyddio.


Mae ap olrhain symptomau COVID-19 ZOE, a grëwyd ar y cyd gan academyddion yn cynnwys rhai o King’s College, Llundain, yn enghraifft arall o wella lefelau ymgysylltu drwy roi adborth i’r cyfranogwyr. Mae defnyddwyr ap ZOE yn rhoi gwybod yn rheolaidd am eu hiechyd a’u symptomau a ph’un a ydynt wedi cael prawf positif am y feirws ai peidio. Rhoddir diweddariadau a rhybuddion i’r cyfranogwyr sy’n dangos iddynt sut mae eu data’n llywio’r dystiolaeth ddiweddaraf mewn perthynas â’r coronafeirws. Mae’r ap olrhain yn helpu i gasglu gwybodaeth amser real am raddfa achosion o COVID-19 a sut mae’n effeithio ar wahanol grwpiau demograffig, a chaiff y wybodaeth ei rhannu â’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol hefyd.



A collection of small, semi-transparent dots in light blue, yellow, and white, scattered in the upper left quadrant of the slide.

Ein hargymhellion

**Sut y gallwn fod yn fwy
cynhwysol yn ein data?**

A collection of small, semi-transparent dots in light blue, yellow, and white, scattered in the lower right quadrant of the slide.

1. Creu amgylchedd o ymddiriedaeth a dibynadwyedd sy'n galluogi ac yn annog pawb i gyfrif a chael eu cyfrif yn nata a thystiolaeth y DU.

1.1 Mae ymddiriedaeth yn hollbwysig er mwyn casglu a defnyddio data ac er mwyn i ystadegau fod yn gynhwysol. Bydd pobl yn fodlon rhoi eu gwybodaeth bersonol pan fyddant yn credu (1) bod eu data'n bwysig ac y cânt eu defnyddio i wella bywydau pobl a phan fyddant wedi'u hargyhoeddi bod y cynhyrchwr data (2) yn ddibynadwy, (3) yn ymatebol, (4) yn agored ac yn gynhwysol, (5) bod ganddo hygyrdded a'i fod (6) yn deg. Er mwyn hybu ymddiriedaeth a dibynadwyedd yn y broses o ddarparu a defnyddio data, dylai cynhyrchwyr data lunio contract cymdeithasol â'r rhai sy'n rhoi eu data (yr ymatebwyr). Dylai'r contract hwn gynnwys:

1.1.1 esboniad clir o'r rhesymau dros gasglu'r data a sut y caiff y data eu defnyddio

1.1.2 cyfrinachedd ac anhysbysedd yr ymatebwyr, a gaiff eu gwybodaeth ei rhannu â thrydydd partïon ac, os felly, am ba reswm, ac o dan ba amgylchiadau, os o gwbl, y gallai'r ymatebwyr gael eu gwneud yn hysbys

1.1.3 rhoi adborth amserol a hygyrch i'r ymatebwyr, yn rhad ac am ddim

1.1.4 ymgysylltu â grwpiau a phoblogaethau perthnasol drwy gydol y broses casglu data gyfan, gan geisio eu cyngor a'u cymorth ar gyfer gwaith cysyniadoli a chynllunio, casglu data, dadansoddi a dosbarthu

1.1.5 dylai budd y cyhoedd gael blaenoriaeth dros fuddiannau sefydliadol, gwleidyddol neu bersonol ar bob cam o'r gwaith o gynhyrchu, rheoli a lledaenu ystadegau swyddogol

Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r materion pwysicaf i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau casglu data, er mwyn sicrhau bod manteision amlwg a bod y risgiau a'r costau i'r cyfranogwyr wedi cael eu lleihau cymaint â phosibl.

1.2 Dylai cynhyrchwyr data gydweithio â'i gilydd i gynnal gweithgareddau ymgysylltu hirdymor gyda grwpiau a phoblogaethau perthnasol er mwyn sicrhau deialog agored a meithrin dibynadwyedd. Gellid cyflawni hyn drwy allgymorth, meithrin ac adnabod gwybodaeth ar lefel leol, adrodd ar gostau a manteision cymryd rhan mewn gweithgareddau casglu data, a dysgu o weithgareddau casglu data blaenorol er mwyn mynd i'r afael â'r costau a'r rhwystrau rhag cymryd rhan, megis cyfrifiadau 2021/22 [gweler hefyd argymhelliad 1.4].

1.3 Dylai cynhyrchwyr data hwyluso ymddiriedaeth ymhlith darpar gyfranogwyr a dangos eu dibynadwyedd eu hunain drwy gynyddu amrywiaeth ymhlith eu staff, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwaith casglu data gan y cyhoedd, a thrwy sicrhau y caiff cyfranogwyr eu trin â'r un parch.

- 1.4 Dylai cynhyrchwyr data wneud gwaith ymchwil priodol i ganfod y rhwystrau ymarferol rhag cymryd rhan a rhoi'r arferion gorau ar waith wrth gasglu data, gan gynnwys ystyriaethau moesegol, er mwyn gwneud y dulliau a ddefnyddir yn fwy cynhwysol. Gallai hyn olygu rhoi mynediad i'r rhyngwrwyd er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, a darparu cyfieithwyr i'r rhai nad ydynt yn rhugl yn y Saesneg.
- 1.5 Dylai cynhyrchwyr data sicrhau bod offerynnau casglu data yn hygyrch i bawb, gan gydnabod gwahaniaethau o ran iaith, llythrennedd a hygyrchedd cymharol gwahanol ddulliau a fformatau. Er enghraifft, defnyddio arolygon aml-ddull fel arfer safonol a gwneud addasiadau ychwanegol er mwyn galluogi oedolion a phlant ag amrywiaeth o anableddau i gymryd rhan, yn ogystal â phobl sy'n cael eu hallgáu mewn ffyrdd eraill, gan gynnwys allgáu digidol.
- 1.6 Dylai cynhyrchwyr data osgoi defnyddio ymatebion gan ddirprwyon a sicrhau mai'r dull diofyn yw hunanadrodd ar nodweddion personol, gan gynnwys casglu gwybodaeth yn uniongyrchol gan blant lle bo hynny'n briodol.
- 1.7 Dylid ymchwilio i'r rhwystrau ymarferol sy'n atal pobl rhag cael gafael ar ddata sy'n deillio o waith o'r fath a'u defnyddio, yn ogystal â ffyrdd o ennyn hyder yn y data hyn.

2. Defnyddio dull system gyfan, gan weithio mewn partneriaeth ag eraill i wneud data a thystiolaeth y DU yn fwy cynhwysol.

- 2.1 Dylai SYG sefydlu trefn ac amserlen glir ar gyfer monitro ac adolygu argymhellion y Tasglu, gan roi gwybod i ba raddau y maent wedi cael eu rhoi ar waith ac amlinellu strategaethau er mwyn sicrhau y cânt eu rhoi ar waith yn y dyfodol.
- 2.2 Dylai cynhyrchwyr data sefydlu fforwm defnyddwyr parhaus er mwyn ymgorffori gwaith y Tasglu mewn ffrydiau gwaith arferol.
- 2.3 Dylai cynhyrchwyr data ymgysylltu'n barhaus ag academyddion, grwpiau defnyddwyr ac eraill y tu allan i'r llywodraeth sydd â phrofiad o faterion allweddol yn ymwneud â chydraddoldebau sy'n berthnasol i'r DU, er mwyn rhannu gwybodaeth a dulliau mesur.
- 2.4 Dylai SYG gynnal adolygiad systematig o'r ffordd y mae swyddfeydd ystadegau gwladol eraill yn casglu data ar angydraddoldebau, yn eu dadansoddi ac yn adrodd arnynt. Dylai gydweithio â gwledydd eraill sydd ag arferion addawol er mwyn rhannu gwybodaeth a dulliau mesur ac adrodd.

- 2.5 Dylai cynhyrchwyr data ystyried ariannu gweithgareddau casglu data ar y cyd ym mhob rhan o seilwaith data'r DU, er mwyn sicrhau y caiff y costau sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael a bylchau mewn data a chynrychiolaeth annigonol eu rhannu a'u bod yn gynaliadwy, ac y caiff syniadau costeffeithiol eu datblygu.
- 2.6 Dylai SYG chwarae rhan flaenllaw mewn mentrau rhyngwladol i wneud ystadegau'n fwy cynhwysol, gan gynnwys, ymhlith eraill, Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a diwygio Canllawiau ac Egwyddorion Is-Adran Ystadegau'r Cenhedloedd Unedig (UNSD) ar gyfer Datblygu Ystadegau ar Anabledd. Er mwyn bwrw ymlaen â hyn, dylai SYG geisio sefydlu Grŵp Dinas y Cenhedloedd Unedig ar Ystadegau Cynhwysol.
- 2.7 Dylai SYG a chynhyrchwyr data eraill rannu, gwerthuso a chyhoeddi arferion effeithiol ac arloesol er mwyn hwyluso dysgu ehangach.

3. Sicrhau y caiff gwybodaeth am bob grŵp ei chofnodi mewn perthynas ag agweddau allweddol ar fywyd yn nata'r DU, ac adolygu arferion yn rheolaidd.

- 3.1 Dylai'r Pwyllgor Rhyngweinyddiaethol a Grŵp Strategol Cyfrifiad ac Ystadegau Poblogaeth y DU sefydlu trefn arolygu reolaidd er mwyn gweld pwy sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ystadegau neu arferion casglu data'r DU, ac arwain gwaith i fynd i'r afael â hyn. Byddai hyn yn eu galluogi i ymateb i newidiadau mewn cwmipas, ochr yn ochr â newidiadau mewn cyfansoddiad cymdeithasol, categorïau cymdeithasol a dealltwriaeth gymdeithasol.
- 3.1.1 Y blaenoriaethau penodol ar hyn o bryd yw pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol neu'n ieithyddol, plant a rhieni anabl, dioddefwyr trais gan bartner a thrais domestig, yn enwedig dioddefwyr sy'n fudwyr, yn bobl hŷn ac yn bobl ifanc dan oed, menywod yn ystod beichiogrwydd a mamolaeth, plant mewn tlodi bwyd, preswylwyr sefydliadau cymunedol megis carchardai, Canolfannau Symud Mewn-fudwyr, hostelau a chartrefi gofal, pobl 'ddigartref gudd', a grwpiau bach megis cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, grwpiau o gastau a llwythau Asiaidd ac Affricanaidd cofrestredig sydd, ar hyn o bryd, yn anweledig i raddau helaeth mewn ystadegau a gyhoeddir.
- 3.2 Dylai cynhyrchwyr data gynnal adolygiad i weld pa mor gynrychiadol yw arolygon a setiau data gweinyddol allweddol (drwy feincnodi yn erbyn cyfrifiadau 2021/22 y DU i ddechrau) a gweithredu'n gyflym er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodir, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â phoblogaethau heb gynrychiolaeth ddigonol yn hanesyddol (er enghraifft dynion du ifanc) neu grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio'n fwy (er enghraifft plant), gan gynnwys y rhai a nodwyd yn argymhelliad 3.1.1, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

- 3.2.1 Dylai adolygiad o'r fath sicrhau bod arolygon a setiau data allweddol yn defnyddio mesurau cyson [gweler hefyd egwyddor 5 ar briodoldeb ac eglurder ynghylch y cysyniadau ac egwyddor 7 ar safonau wedi'u cysoni], ac nad yw anghysondebau'n camliwio'r cymaroldeb.
- 3.3 Dylai cynhyrchwyr data ystyried sut i wella'r ffordd y caiff data gweinyddol eu casglu ar nodweddion a warchodir gan y gyfraith mewn deddfwriaeth cydraddoldeb yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ar y cyd â defnyddwyr ac adrannau perthnasol yn y llywodraeth. Ymhlith yr enghreifftiau mae crefydd a chred, ailbennu rhywedd (hunaniaeth o ran rhywedd), priodas a phartneriaeth sifil, mamolaeth a beichiogrwydd, nodweddion perthnasol eraill megis cefndir economaidd-gymdeithasol a statws mudwr. Hefyd, dylid parhau i gofnodi gwybodaeth am nodweddion a gesglir yn rheolaidd (ac a warchodir gan y gyfraith yng Nghymru, Lloegr a'r Alban) megis rhyw, grŵp ethnig a statws anabled, a hynny mewn modd cynhwysfawr a phriodol.
- 3.4 Dylid casglu gwybodaeth am ryw, oedran a grŵp ethnig fel mater o drefn ac adrodd arni ym mhob math o ddata gweinyddol a data prosesau o fewn gwasanaethau, gan gynnwys ystadegau a gesglir mewn lleoliadau iechyd a gofal, gan yr heddlu ac mewn llysoedd a charchardai. Dylid adolygu ansawdd y data hyn yn rheolaidd er mwyn casglu gwybodaeth sy'n adlewyrchu'r rhai a ddaw i gysylltiad â'r lleoliadau hyn yn well.
- 3.5 Lle y bo'n anymarferol neu'n amhriodol casglu gwybodaeth am nodweddion a warchodir gan y gyfraith yng Nghymru, Lloegr a'r Alban mewn data gweinyddol, neu lle nad yw'n data o'r fath yn rhoi digon o wybodaeth am brofiadau grwpiau a phoblogaethau, dylai cynhyrchwyr data ystyried cynnal arolygon ar raddfa fawr er mwyn ychwanegu at eu dealltwriaeth o'r materion hyn.
- 3.5.1 Er enghraifft, mae'n debygol y bydd angen data atodol er mwyn casglu gwybodaeth well am gyfeiriadedd rhywiol, yn enwedig ymhlith pobl nad ydynt o oedran gweithio a'r tu hwnt i gyplau sy'n cyd-fyw. Hefyd, mae angen data ar lesiant seicolegol ar draws y sbectrwm oedran a rhyw, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd meddwl dynion hŷn, merched a menywod ifanc.
- 3.6 Dylai cynhyrchwyr data weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod ffynonellau data gweinyddol y DU yn adlewyrchu nodweddion perthnasol mor briodol â phosibl [gweler hefyd egwyddor 5 ar briodoldeb ac eglurder ynghylch y cysyniadau ac egwyddor 7 ar safonau wedi'u cysoni]. Mae hyn yn cynnwys gweithio i gysylltu amrywiol setiau data gweinyddol, a data arolwg lle y bo'n briodol [gweler hefyd egwyddor 6 ar y dulliau a ddefnyddir] er mwyn sicrhau cwrdd. Bydd hyn yn atgyfnerthu'r potensial i ddata gweinyddol (wedi'u cysylltu) lenwi'r bylchau mewn perthynas

â nodweddion perthnasol, a lle y maent yn croestorri yng ngwahanol wledydd y DU a rhyngddynt. Byddai hyn hefyd yn gwella dealltwriaeth o grwpiau perthnasol a'u profiadau dros amser ac mewn gwahanol leoliadau.

- 3.7 Dylai cynhyrchwyr data werthuso cwrmpas grwpiau poblogaethau nad ydynt yn rhan o gartrefi preifat yn nata'r DU a chymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r rhai sydd ar goll o'r data presennol. Yn benodol, dylent sicrhau y caiff preswylwyr sy'n aros am gyfnodau hwy mewn cartrefi gofal, ysbytai a charchardai, a'r trosiant o bobl rhwng cartrefi preifat a phreswylfeydd eraill (neu ddim preswylfa), eu hadlewyrchu.
- 3.8 Dylai cynhyrchwyr data gydnabod anghenion data amrywiol gwahanol ddefnyddwyr yn y broses o gasglu data ar boblogaethau a grwpiau penodol a'r croestoriad rhwng nodweddion poblogaethau a grwpiau, a rhoi dulliau ar waith i sicrhau bod gweithgareddau casglu data ac adrodd arnynt yn diwallu anghenion amrywiaeth o ddefnyddwyr ac ymatebwyr.

4. Gwella seilwaith data'r DU fel bod modd dadgyfuno data a dadansoddi croestoriadau, a hynny mewn ffordd gadarn a dibynadwy, ar gyfer yr ystod lawn o grwpiau a phoblogaethau perthnasol, ac ar lefelau gwahanol o ddaearyddiaeth.

- 4.1 Dylai cynhyrchwyr data sicrhau bod data'n ddigon manwl er mwyn gallu eu dadgyfuno mewn ffordd ystyrlon. Dylent osgoi defnyddio metagategoriâu a all guddio heterogenedd rhwng grwpiau ac o fewn grwpiau ac nad yw pobl yn uniaethu â nhw o bosibl (er enghraifft, Gwyn, BAME, LGBTQ+).
- 4.2 Dylai SYG a Swyddfa'r Cabinet fynd ati i hyrwyddo dull croestoriadol o archwilio a chyflwyno data ar anghydraddoldebau ledled y DU. Dylid osgoi dadansoddiadau camarweiniol o un nodwedd, a dylai dadansoddiadau 'tebyg at ei debyg' sy'n rheoli, er enghraifft, ar gyfer oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hiliaethu, cefndir a safle economaidd-gymdeithasol¹ a lle, fod ar gael yn hawdd.

¹ Drwy gydol y ddogfen, mae cefndir economaidd-gymdeithasol yn cyfeirio at safle economaidd-gymdeithasol y rhiant/rhieni neu'r gofalwr/gofalwyr a oedd yn cyd-fyw yn ystod plentyndod yr ymatebydd targed, a 14 oed yw'r oedran enghreifftiol wrth gasglu data o'r fath fel arfer. Felly, mae'n mesur safle economaidd-gymdeithasol teulu'r ymatebydd yn ystod plentyndod yr ymatebydd, nid ei safle economaidd-gymdeithasol ar hyn o bryd. Mae hyn yn debyg i'r gwahaniaeth rhwng crefydd rhywun ar hyn o bryd a'r grefydd y cafodd ei fagu ynddi.

- 4.3 Dylai SYG, Cofnodion Cenedlaethol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon ymgymryd â dadansoddiadau croestoriadol manwl o gyfrifiadau 2021/22 er mwyn meithrin dealltwriaeth fanwl o natur anfantais. Er mwyn cynnwys cefndir economaidd-gymdeithasol wrth ddadansoddi croestoriadedd, dylai'r gwaith dadansoddi hefyd ddefnyddio ffynonellau awdurdodol eraill megis yr Arolwg o'r Llafurlu/yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, gan na chafodd mesur pwysig cefndir economaidd-gymdeithasol ei gynnwys yng nghyfrifiadau 2021/22.
- 4.4 Dylai cynhyrchwyr yr adnoddau ar-lein sydd eisoes ar gael fabwysiadu dulliau croestoriadol, fel bod modd dadansoddi nodweddion gwahanol gyda'i gilydd (megis ethnigrwydd a chrefydd) er mwyn gwella dealltwriaeth o anghydraddoldebau.
- 4.5 Dylai cynhyrchwyr data ddefnyddio dull gorsamplu wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn mynd i'r afael â bylchau penodol mewn gwybodaeth sy'n deillio o feintiau sampl bach a hwyluso dadansoddiadau croestoriadol.
- 4.6 Rhaid i SYG sicrhau bod argymhellion 2023 ar gyfer system ystadegau cymdeithasol y dyfodol yn cynnig ateb parhaol i ddiwallu'r ystod lawn o anghenion data ar gynwysoldeb sydd wedi'u cynnwys yn yr argymhellion, gan gynnwys ar gyfer y grwpiau hynny a nodir fel blaenoriaethau yn 3.1.1.

5. Sicrhau bod y cysyniadau a gaiff eu mesur yn yr holl ddata a gesglir yn briodol ac yn eglur.

- 5.1 Dylai cynhyrchwyr data adolygu sylfeini cysyniadol eu mesurau ar gyfer poblogaethau a grwpiau perthnasol, gan sicrhau bod y mesurau a ddefnyddir yn adlewyrchu'r safonau a'r ddeddfwriaeth gyfredol yn gywir. Dylai cynhyrchwyr data sicrhau bod mesurau'n gysyniadol gadarn ac nad ydynt yn ymgorffori datganiadau y gellid tybio eu bod yn ddirmygus, yn amhriodol neu'n gamarweiniol.
- 5.1.1 Fel blaenoriaeth, dylai SYG newid ei mesurau anabledd yn rhai sydd wedi'u seilio'n fwy cadarn ar fframweithiau cysyniadol model bioseicogymdeithasol Dosbarthu Gweithrediad, Anabledd ac Iechyd (ICF) a Dosbarthu Gweithrediad, Anabledd ac Iechyd Plant a Phobl Ifanc (ICF-CY) Sefydliad Iechyd y Byd.
- 5.1.2 Dylai SYG newid ei mesurau ethnigrwydd a chrefydd fel eu bod yn cyfateb yn well i'r ddealltwriaeth gysyniadol gyfredol, yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth ac yn hawdd eu hadnabod ac yn ystyrlon i bobl o grwpiau ethnig a chrefyddol penodol.

5.1.3 Dylid ystyried pa mor gadarn yw'r mesurau i gasglu gwybodaeth am brofiad poblogaethau a grwpiau. Er enghraifft, er mwyn mesur tlodi yn fwy effeithiol, dylai SYG adolygu dulliau cyfrif cyfwerthedd a gwella amcangyfrifon o dlodi incwm a thlodi tanwydd ymhlith pobl ag anableddau a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.

5.2 Mewn cydweithrediad â'r Gweinyddiaethau Datganoledig, dylai SYG ddatblygu (a gwerthuso) cyfres o fesurau cefndir economaidd-gymdeithasol sy'n addas ar gyfer casglu gwybodaeth mewn setiau data gweinyddol ar arolygon. Ar y lleiaf, dylai hyn gynnwys mesurau o alwedigaethau rhieni ac addysg rhieni a bod yn ddigon manwl i gasglu gwybodaeth am amrywiaeth o ddosbarthiadau galwedigaethol a lefelau addysgol, heb fod yn feichus i ymatebwyr.

5.3 Dylai cynhyrchwyr data sicrhau bod cynllun arolygon a holiaduron yn seiliedig ar ddealltwriaeth gysyniadol glir o'r wybodaeth sydd ei hangen, gan ddilyn arferion gorau er mwyn troi'r ddealltwriaeth gysyniadol hon yn brosesau casglu data priodol a hygyrch [gweler hefyd argymhelliad 1.5 o dan egwyddor 1 ar ymddiriedaeth a dibynadwyedd].

5.4 Dylai cynhyrchwyr data a dadansoddwyr sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir wrth gasglu gwybodaeth am bob nodwedd, ac adnodd arni, yn glir. Er enghraifft, dylid gwahaniaethu'n glir rhwng cysyniadau fel rhyw, rhywedd a hunaniaeth o ran rhywedd; neu hunaniaeth ethnig a chefnidir ethnig. Byddai hyn yn helpu i osgoi amwysedd a dryswch ymhlith ymatebwyr a defnyddwyr data, sy'n gallu tanseilio ansawdd data a gwaith dadansoddi, yn ogystal â chred yn nilysrwydd a dibynadwyedd data.

5.5 Wrth rannu data neu adrodd arnynt, dylai cynhyrchwyr data fod yn dryloyw ynglŷn â'r ffordd y cafodd y data eu casglu (er enghraifft, y cwestiynau a'r dulliau ymateb, gan gynnwys eglurder ynghylch y defnydd o ymatebion gan ddirprwyon). Dylent gyhoeddi metadata cynhwysfawr ochr yn ochr â'u data, sy'n hygyrch i ymatebwyr a defnyddwyr data er mwyn iddynt allu asesu ansawdd ac addasrwydd data.

6. Ehangu'r amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddir fel mater o drefn a chreu dulliau newydd o ddeall profiadau holl boblogaeth y DU.

6.1 Dylai cynhyrchwyr data ystyried cyfleoedd i ddefnyddio dulliau mwy amrywiol, arloesol a hyblyg o gasglu a chyfuno data, lle y bydd hynny'n arbennig o werthfawr er mwyn deall profiadau grwpiau a phoblogaethau perthnasol a/neu allu cynnwys lleisiau grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu sydd ar goll o ffynonellau data ar hyn o bryd – megis mudwyr heb eu dogfennu, pobl ag anableddau, pobl 'ddigartref gudd', a phlant. Bydd dulliau o'r fath hefyd yn berthnasol er mwyn casglu data mwy cynhwysfawr am nodweddion a phrofiadau'r grwpiau blaenoriaeth hynny a nodir ym mhwyntiau 3.1.1 a 3.2.

- 6.2 Dylid ystyried amrywiaeth ehangach o ddulliau o gasglu gwybodaeth am y profiadau dros dro hynny na chânt eu cofnodi'n dda gan amlaf – ond y gall fod yn bwysig eu cynnwys. Ymhlith y rhain mae beichiogrwydd, cyfnodau yn yr ysbyty, gwaharddiadau o'r ysgol, cyfnodau y bydd plant yn eu treulio'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, cysgu 'o sofffa i sofffa', a chyfnodau yn y carchar neu ar remánd. Mae hyn hefyd yn cynnwys profiadau sensitif neu brofiadau na cheir llawer o wybodaeth amdanynt ar gyfer rhai grwpiau, er enghraifft trais gan bartner a mathau eraill o drais domestig, yn enwedig yn achos menywod hŷn.
- 6.3 Ymhlith y dulliau na chânt eu defnyddio ddigon ar hyn o bryd a fyddai'n cynnig gwybodaeth ychwanegol werthfawr mae: dulliau ethnograffig er mwyn deall profiadau go iawn, arbrefion yn y maes er mwyn deall mwy am wahaniaethu, astudiaethau cymharol ledled y DU er mwyn ystyried 'beth sy'n gweithio' wrth hyrwyddo dulliau casglu data cynhwysol, cysylltu data gweinyddol â data arolygon neu ffynonellau gweinyddol eraill, a defnyddio dulliau casglu data hydredol a data panel yn well a'u cyfoethogi.
- 6.3.1 Er enghraifft, ar gyfer yr arolygon hynny sy'n casglu gwybodaeth am blant ar hyn o bryd, dylai cynhyrchwyr data ystyried pa wybodaeth y gellir ei chasglu'n uniongyrchol gan y plant eu hunain, gan ddefnyddio offerynnau priodol a dulliau amrywiol o gasglu data (er enghraifft, lluniau a dyddiaduron), gan ddilyn arferion gorau o ran casglu data a dulliau moesegol ac, ar yr un pryd, gydnabod yr amser/ baich ychwanegol a allai fod yn gysylltiedig â hynny a'r anghenion preifatrwydd er mwyn i blant allu cymryd rhan. Hefyd, dylai data gael eu casglu er mwyn adlewyrchu plant sydd wedi'u hymyleiddio'n fwy (er enghraifft, plant anabl, plant carcharorion, plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, plant sy'n derbyn gofal, ffoaduriaid a mudwyr sydd ar eu pen eu hunain) fel blaenoriaeth.
- 6.4 Ym mhob datblygiad arloesol fel y rhai a nodir, rhaid rhoi sylw digonol i faterion yn ymwneud â chydsyniad, ymddiriedaeth a dibynadwyedd [gweler hefyd egwyddor 1 ar ymddiriedaeth] a risgiau sy'n gysylltiedig â datgelu.
- 6.4.1 Er enghraifft, mewn perthynas â chysylltu data, sicrhau bod tystiolaeth bod ansawdd a chywirdeb y data a gaiff eu cysylltu, a'r broses gysylltu, yn briodol a bod mesurau diogelu wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn diogelu preifatrwydd, cyfrinachedd ac anhysbysedd yr ymatebwyr, yn unol â'r canllawiau cyfredol megis Rhaglen Adolygu Systemig Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau Awdurdod Ystadegau'r DU ar Gysylltu Data ar gyfer Ystadegau Gwell. Mae cyfathrebu'n agored ynglŷn â'r defnydd o ddata a mesurau diogelu yn hanfodol

hefyd. Dylai trefniadau cysylltu data a diogelu data ddilyn arferion gorau a chael eu cyfiawnhau mewn perthynas â phryderon ynglŷn â budd y cyhoedd, a hynny heb ddefnyddio mesurau diogelu fel ffordd o gyfyngu ar wybodaeth am boblogaethau sydd o ddiddordeb neu waith dadansoddi arnynt [gweler hefyd egwyddor 3 ar gasglu gwybodaeth gadarn am grwpiau].

7. Dylai safonau wedi'u cysoni ar gyfer grwpiau a phoblogaethau perthnasol gael eu hadolygu o leiaf bob pum mlynedd a'u diweddarau a'u hehangu lle bo angen, yn unol â newidiadau mewn normau cymdeithasol ac anghenion ymatebwyr a defnyddwyr.

- 7.1 Dylai cynhyrchwyr data ymchwilio i ofynion defnyddwyr ac ymatebwyr a dilyn safonau a chanllawiau ar arferion gorau gan wledydd eraill a chyrff rhyngwladol perthnasol er mwyn sicrhau bod safonau wedi'u cysoni yn parhau i fod yn briodol ac yn berthnasol.
- 7.2 Dylai cynhyrchwyr data ymchwilio i anghenion defnyddwyr ac ymatebwyr mewn perthynas â data ar grwpiau o ddiddordeb a rhoi canllawiau ar sut i gasglu'r data hyn drwy wahanol dulliau, gan adolygu dulliau'n gyson er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol. Wedyn, dylid defnyddio'r wybodaeth hon i ddiweddarau'r safonau wedi'u cysoni sydd eisoes ar waith.
- 7.3 Dylai SYG ac eraill yn y llywodraeth a'r gwledydd datganoledig gydweithio â'i gilydd i wella'r cysondeb a chymaroldeb setiau data ledled y DU, rhwng rhanbarthau a thros amser. Dylent sicrhau bod y data sylfaenol yn ddigon manwl ym mhob rhan o'r DU er mwyn osgoi sefyllfaoedd lle mae'r unig gysoni sy'n bosibl yn golygu metagategoriâu anfoddhaol sy'n seiliedig ar nodwedd gyffredin, megis 'gwyn' a 'heb fod yn wyn'. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod profiadau pobl o gategorïau deuaidd o'r fath yn aml yn ddifriol am eu bod yn cymryd mai bod yn wyn yw'r norm, yn hytrach na chydabod amrywiaeth [gweler hefyd argymhelliad 4.1 o dan egwyddor 4 ar seilwaith data'r DU].
- 7.4 Dylai cynhyrchwyr data ddefnyddio safonau wedi'u cysoni wrth gasglu data, neu systemau ar lefel fanylach sy'n gydnaws â safonau wedi'u cysoni, er mwyn gwella cymaroldeb a defnyddio'r data sydd eisoes ar gael yn well.

8. Sicrhau bod data a thystiolaeth y DU yr un mor hygyrch i bawb, gan ddiogelu manylion adnabod a chyfrinachedd y rhai sy'n rhannu eu data.

- 8.1 Dylai SYG weithio gydag eraill i greu cronfa ddata 'siop un stop' ganolog o ddata a dadansoddiadau ar gydraddoldebau ar gyfer y DU gyfan sy'n hygyrch ac y gellir pori drwyddi.

- 8.2 Dylai cynhyrchwyr data sicrhau bod data gweinyddol yn hygyrch i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr, gan gynnwys pobl nad ydynt yn arbenigwyr. Dylai hyn gynnwys allbynnau a data 'crai' nad ydynt yn datgelu pwy yw'r bobl dan sylw fel bod modd cyflawni dadansoddiadau amgen. Yn benodol, mae angen i ddata a gesglir ar breswylwyr sefydliadau cymunedol, megis carchardai a chartrefi gofal, fod ar gael er mwyn gwella gwasanaethau a thryloywder.
- 8.3 Dylai cynhyrchwyr data ddatblygu adnoddau ar-lein ychwanegol a hawdd eu defnyddio er mwyn i bobl nad ydynt yn arbenigwyr archwilio setiau data sydd eisoes yn bodoli. Ni ddylai defnyddwyr gael eu cyfyngu, fel y gwneir mewn rhai adnoddau ar-lein sydd eisoes ar gael, i dablau parod a roddir ymlaen llaw gan y darparwr data. Yn hytrach, dylent allu archwilio'r data fel y gallant ddiwallu eu hanghenion, yn amodol ar fesurau diogelu awtomatig rhag datgelu, fel yn achos Statistics Finland, er enghraifft. O ran egwyddor 'dwyochredd cyffredinol', lle y bydd aelodau o'r cyhoedd wedi rhoi eu data'n wirfoddol fel ymatebwyr, ni ddylai darparwyr data godi tâl ar aelodau eraill o'r cyhoedd y mae angen iddynt gael gafael ar y data.
- 8.4 Dylai cynhyrchwyr data ystyried iaith, llythrennedd, fformat a dealltwriaeth wrth gyflwyno gwaith dadansoddi a thystiolaeth, yn unol â Rheoliadau Hygyrchedd 2018, a llunio gwefannau ac allbynnau hygyrch ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol, gan gynnwys pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.
- 8.5 Lle bo data gweinyddol perthnasol eisoes yn bodoli sy'n cyfoethogi'r ddealltwriaeth o gynhwysiant/allgáu, dylai fod yn ofynnol i'r adrannau cyfrifol eu cyhoeddi. Dylai cynhyrchwyr data, cyn belled ag y bo modd, fabwysiadu model data agored er mwyn helpu i sicrhau bod data ar gael am ddim ac yn hawdd eu defnyddio i bawb.

Tystiolaeth ategol

Ymgysylltodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd ar ran y Tasglu Data Cynhwysol er mwyn deall sut y gall data a thystiolaeth fod yn fwy cynhwysol, a'r gofynion penodol ar gyfer hyn. Roedd hyn yn cynnwys arferion casglu data, sut y caiff data eu defnyddio, sut y caiff tystiolaeth ei chyflwyno, a ble y ceir bylchau mewn data neu dystiolaeth y gellid eu llenwi er mwyn bod yn fwy cynhwysol. Ystyriodd y Tasglu yr holl dystiolaeth a gasglwyd wrth wneud ei argymhellion terfynol.

Gwnaeth y Ganolfan Cydraddoldebau a Chynhwysiant o fewn SYG arwain sawl pecyn ymchwil ar gyfer y Tasglu, eu dylunio a'u rhoi ar waith. Y nod oedd ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd, grwpiau cydraddoldeb, academyddion, sefydliadau cymdeithas sifil, melinau trafod, y gweinyddiaethau datganoledig ac adrannau llywodraeth ganolog ynghylch cynwysoldeb mewn data.










Ddechrau mis Ionawr 2021, lansiodd SYG ymgynghoriad ar-lein agored er mwyn ceisio barn ar ba mor gynhwysol yw data a thystiolaeth y DU, gan gynnwys meysydd i'w gwella ac enghreifftiau o arferion da. Cafodd yr ymgynghoriad ar-lein ei hyrwyddo'n eang ymhlith rhanddeiliaid mewnol ac allanol, yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ar 26 Mawrth 2021.

Hefyd, cynhaliodd SYG drafodaethau bord gron a chyfweliadau manwl â chynrychiolwyr y gweinyddiaethau datganoledig, awdurdodau lleol, llywodraeth ganolog, academyddion a chymdeithasau dysgedig. Cynhaliwyd y grwpiau a'r cyfweliadau hyn rhwng mis Ionawr 2021 a mis Ebrill 2021.

Hefyd, comisiynodd y Tasglu gwmni Basis Research i gynnal grwpiau ffocws a chyfweliadau manwl â sefydliadau cymdeithas sifil ac aelodau o'r cyhoedd sydd wedi cael profiad o amrywiaeth o faterion yn ymwneud â chydaddoldeb. Gwnaed y gwaith ymchwil hwn rhwng mis Chwefror 2021 a mis Ebrill 2021.

Cynhaliwyd ymgynghoriad papur hefyd fel cyfle arall i gasglu barn y cyhoedd, yn enwedig y grwpiau hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael eu hallgáu'n ddigidol. Roedd yn bwysig casglu barn y grwpiau hyn er mwyn i'r ymgynghoriad ei hun fod yn gynhwysol, yn enwedig yn sgil y defnydd eang o ddulliau casglu data ar-lein ers dechrau'r pandemig. Gwnaed y gwaith ymchwil hwn ym mis Ebrill 2021.

Hefyd, sefydlwyd blwch negeseuon swyddogol yn benodol er mwyn i bartïon â diddordeb ohebu â'r Tasglu. Logiwyd pob neges e-bost ac atodiad, gan gynnwys ymatebion i'r Ymgynghoriad Ar-lein ar Ddata Cynhwysol, ac adroddiadau a mentrau a oedd yn mynd rhagddynt mewn perthynas â chynwysoldeb data a thystiolaeth. Cawsant eu hanfon ymlaen at aelodau o'r Tasglu a'u hystyried wrth ddrafftio'r adroddiad argymhellion. Cafodd ymatebion i'r Ymgynghoriad Ar-lein ar Ddata Cynhwysol a anfonwyd drwy e-bost erbyn y dyddiad cau (26 Mawrth 2021) eu cynnwys yn y dadansoddiadau a'r adroddiadau, ochr yn ochr â'r ymatebion a gyflwynwyd ar-lein drwy Citizen Space.



Cysylltwch â ni

Os hoffech chi gysylltu, anfonwch e-bost i: equalities@ons.gov.uk
Fel arall, gallwch ysgrifennu atom yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa Ystadegau Gwladol
Adeiladau'r Llywodraeth
Ffordd Caerdydd
Casnewydd
De Cymru
NP10 8XG

